

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



Rhifyn 343 - 60c
Mai 2016

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanyrcrws ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Dau
Gymeriad
Bro**



Tudalen 9

**Cadwyn
Cyfrinachau
arall**



Tudalen 23

**Trefniadau
Carnifal
Llanybydder**



Tudalen 18

Ymwelwyr o Sant Germain sur Moine



Ymwelwyr o St Germain-sur-Moine, sef gefeilldref Llamedd gydag aelodau o'r pwyllgor a chynrychiolaeth o gyngor y dref. Adroddiad ar dudalen 16.

Ysgol y Dderi a Chelf a Chrefft yr Urdd

Disgyblion Ysgol y Dderi a fu'n llwyddiannus yn Adran Celf a Chrefft Eisteddfod yr Urdd dros Geredigion. Mwy ar dudalen 19.





**ARWYN VOBÉ
ACCOUNTANCY LTD.**

ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

❖ Cyfrifon Blynnyddol ac Interim

❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau

❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW

❖ Cyflogau a CIS

❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu

ebost arwyn@avaccountancy.cymru



www.facebook.com/clonc360



@Clonc360

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@cffiabrodder](#)
Ebrill 26

Pawb yn joio neithiwr
-o'r rhai lleiaf i'r rhai
hena!
[@CeredigionYFC](#)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@CarregHirfaen](#)
Ebrill 25

Carreg hirfaen yn
mwynhau anturio yng
Ngwersyll Pentywyn

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
[@Clonc360](#)
Ebrill 21

Trafodaeth amaethyddol
wedi dechrau yn
Hystings [#Etholiad2016](#)
[@CeredigionYFC](#) a
[@fuwceredigion](#).

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@Craffwr](#)
Ebrill 16

5 i 0 i dîm ieuenctid
[@LampeterTownRFC](#)
yn erbyn [@carnathletic](#)
ar hanner amser.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@cffiillanwenog](#)
Ebrill 11

Joio da Gareth
Goedwig heno.
[#stwffo](#)
[@CeredigionYFC](#)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@cffiillanwenog](#)
Ebrill 2

Rhai o aelodau'r
clwb yn siarad yn
Llanelwedd heddi
[#gwdjob](#)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

LAS

Recycling Ltd



**Gwasanaeth Casglu
Gwastraff Masnach**

Am wasnaeth cost effeithiol
a dibynadwy ar gyfer eich
holl anghenion gwastraff

Ffordd Tregaron, Llambod, Ceredigion. SA48 8LT

**Gwasanaeth biniau ar olwynion
(1100L, 660L a 240L)**



01570 421421

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Mai Delyth Phillips, Llety Clyd, Stryd Newydd 422992
Mehefin Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol Elaine Davies, Siwan Davies, Dylan Lewis,
Marian Morgan a Delyth Morgans Phillips

Dylunydd y mis Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynon 493325
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Breuddwydion ffôl?

Rhyw bedair neu bum mlynedd yn ôl, rwy'n cofio taro nodyn ar twitter yn dweud ei bod hi'n beth syn nad oedd Eisteddfod Genedlaethol Cymru wedi bod yng Ngheredigion oddi ar 1992. Rwy'n cofio'n gliriach fyth yr ymateb llugoer a negyddol gan rai sy'n deall y pethe 'ma yn well na fi. Dyna ni 'te, meddylies i, os yw pobol aeddfed a chall ac mewn swyddi cyfrifol yn meddwl bod hynny'n rhyw 'pie in the sky', i ba beth yr oeddwn i, yr ymfytyn ffôl, yn ffwdanu codi llais.

Erbyn hyn, rydyn ni'n weddol sicr y daw'r Eisteddfod Genedlaethol i Geredigion yn 2020. Bu pwyllgor bach diwyd yn gweithio'n galed yn Llanbedr Pont Steffan i roi cais i ddenu'r Eisteddfod i'r ardal hon, gyda dau safle i'w hystyried. Ac er taw un mewn chwe chais yw cais Llambled a'r fro, rwy'n gobeithio taw i'n hardal ni y daw hi; ond ble bynnag y caiff ei chynnal, fe fyddwn ni, bobol ardal Clonc, yn siŵr o weithio'n galed drosti. Wedi'r cwbl, rydyn ni'n gyfarwydd â chynnal un o brif eisteddfodau Cymru yma bob gŵyl banc Awst ers yn agos i hanner can mlynedd, sef Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen. Mae'n bwysig cynnal a chefnogi eisteddfodau mawr a bach yn ein hardaloedd.

Menter arall a gyfeirid ati fel 'pie in the sky' tan yn weddol ddiweddar oedd y gobaith o weld sefydlu llinell reilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin. Byddai hyn o fantais aruthrol i ni yn ardal Clonc. Mae'r un dadleuon diflas i'w clywed yn erbyn yr ymgyrch – yn bennaf, tai wedi'u hadeiladu ar hyd llwybr yr hen reilffordd – ond does dim rhaid dilyn yr un lein i'r fodfedd. Erbyn hyn, mae'r momentwm yn cynyddu, mae Traws Link Cymru yn ymgyrchu'n broffesiynol ac yn adeiladol, ac mae'r pleidiau gwleidyddol yn falch o gefnogi'r syniad. Ond, wedi'r cwbl, y mae hi'n dymor lecshwn ... gobeithio y bydd yr un gefnogaeth a'r un dyhead ym mola'r gwleidyddion wedi'r etholiad.

Cloncen

Lle aeth pawb?



Yn dilyn diwrnod o gasglu hen luniau Casgliad y Werin Cymru yn Neuadd yr Hafod, Gorsgoch yn ddiweddar, daeth y llun yma i CLONC:

Cantata'r Adar yn 1960:

Yn y llun mae Sadie Jones; Doreen Glenydd; Martha Cefen; Annie Quarry Villa; James Llain; Mary Lloyd-Lewis; Sulwen Llain; Margaret Cefen; Ann Bronhaf; Devina Chapel House; Lona Dolmaen; Vincent Dolmaen; Gerald Moyddyn; Sulwyn Meini Mawr; Catherine Dolmaen; Eirina Fronddu; Dilys Moyddyn; Gareth Awelon; Margaret Hafod; Sally Bryngwalia; Tomi Penlanfach; Elwyn Meini Mawr; Eric Chapel House; Elgan Moyddyn; John Plas; Sylvia Penlon; Jim Llain; Mari Penlanfach; Luned Glynyrhelyg; Margaret Clundu; Dai Esgairlydan; Rhys bach; ac Aeron Dolmaen.

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Papur Bro Clonc
Yng Nghlwb Rygbi Llanybydder Nos Fawrth 10fed Mai am 7 o'r gloch.
Darperir lluniaeth ysgafn dim ond i chi ein hysbysu y byddwch yn mynychu.

Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

CYMRAG

Yn y Gegin gyda Gareth



Mwynhau Melystra Mai

Y mis yma rwyf am gynnig casgliad o rysetiau melys i chwi baratoi a'u mwynhau. Mae'r pwdinau canol cudd yn dod yn fwy poblogaidd o hyd, ac yn amlwg iawn ar fwydlenni erbyn hyn. Maent yn edrych yn anodd i'w paratoi, ond wir i chi, maent yn gymharol hawdd i'w gwneud. 15 munud, ac maent yn barod.

Felly gobeithio y gwnaiff pawb fwynhau'r pwdinau hyfryd drwy gydol y mis. Rwy'n siŵr y bydd wynebau pobol yn bictiwr wrth iddynt dorri'r pwdin, a gweld yr hylif yn llifo allan o'u canol. Beth am arbrofi gyda ffefrynnau?


Mwynhewch felystra Mai!

Gareth

Pwdin Ffondant Siocled

Cynhwysion

- 2 wy, 50gm siwgr brown
- 1 llond llwy bwdin o flawd plaen
- 1 llond llwy bwdin o flawd corn
- 140 gm siocled o ansawdd da
- 100gm menynd
- 3 llwy fwrdd hufen



Dull

1. Trowch y ffwrn i 200C, Fan 180, Nwy 6
2. Irwch a leiniwch 4 torrwr toes metal â phapur gwrthsaim, a gosodwch ar bapur ar dun pobi.
3. Curwch yr wyau a'r siwgr nes yn hufennog, ac yna rhidyllwch y blawd i gyd iddo, a'i blygu i mewn.
4. Toddwch y siocled, menynd, a'r hufen dros bowlen o ddŵr cynnes, a phlygwch i'r gymysgedd.
5. Rhannwch rhwng y tuniau; pobwch am 6-7 munud. Trowch allan ar blât, a gweinwch gyda hufen.

Pwdin Pwll Caramel

Cynhwysion

- 150gm siwgr mân
- 100gm menynd
- 6 llond llwy fwrdd o hufen chwipio
- 4 wy, 150 gm blawd plaen



Dull

1. Irwch 4 torrwr toes metal, ayyb (fel y rysâit cynt)
2. I greu'r saws, toddwch y siwgr ac 1 llond llwy bwdin o ddŵr mewn sosban, a berwch nes ei fod yn euraidd.
3. Ychwanegwch yr hufen a'r menynd, a gadewch iddo oeri.
4. Ychwanegwch yr wyau a'r blawd wedi'i ridyllu.
5. Rhannwch rhwng y tuniau, a phobwch am 7-8 munud.
6. Gweinwch gyda hufen ia.

Pwdin Pwll Almwn a Llus

Cynhwysion

- 1 wy, 1 melyn wy
- 100gm siwgr eisin
- 100gm cnau almwn wedi malu
- 6 llond llwy fwrdd hufen chwipio
- 75 gm menynd wedi'i doddi
- Diferion o flas almwn

Y "Pwll"

Cynhwysion

- 50gm marsipan
- 1 llond llwy fwrdd hufen
- 15g siocled gwyn
- 1 llond llwy fwrdd o jam llus

Dull

- 1 Cymysgwch cynhwysion y 'sponge' gyda'i gilydd, a rhennwch rhwng y tuniau wedi eu paratoi.
2. Gosodwch yn yr oergell am 30 munud
3. I greu'r pwll, cymysgwch yr hufen, marsipan a'r siocled wedi ei doddi.
4. Trowch y ffwrn i 180C, 160Fan, Nwy 4
5. Rhannwch y past almwn a'r jam rhwng y tuniau, a phobwch am 7-8 munud.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partïon

Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk



MAI

- 6 Arddangosfa Dartiau yn y Clwb Rygbi. Drysau ar agor 6.30 yh; i ddechrau am 8yh.
- 7 Cystadleuaeth agored dartiau yn Llain y Castell. Drysau'n agor 10.30yb; i ddechrau am 12.30yp
- 7 MELA Ysgol Theatr Maldwyn gan Linda Gittins, Derec Williams a Penri Roberts yn Theatr Felinfach.
- 7 Eisteddfod Gadeiriol Capel y Fadfa, Talgarreg. Cystadleuaeth Newydd Côr. Emyr 01545 590383 neu Enfys 01545 590295 am fanylion pellach.
- 8 Rihysal Bedyddwyr Cylch Caio a Llambled yn Noddfa am 2.00y.p.
- 10 Cyfarfod Blynnyddol CLONC Clwb Rygbi Llanybydder am 7.00y.h.
- 11 Cyfarfod Blynnyddol Traws Link Cymru yn Neuadd Fictoria am 7yh.
- 13 Noson Goffi dan nawdd Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder am 7.00y.h. yn Festri Aberduar. Agorir gan Mrs Pam Burke.
- 13 Gwin a Chân gyda Cardi-Gân yn Neuadd yr Hafod, Gorsgoch am 8.00y.h. Gwestai: Côr Meibion Caerfyrddin. Elw at Beiciau Gwaed.
- 14 Rali CFfl Sir Gâr yng Nghaerfyrddin.
- 15 Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llambled ym Methel Cwm Pedol am 4.00y.p.
- 15 Ras Sarn Helen o Glwb Rygbi Llanbed am 10.30 yb.
- 19 Prisio eitemau yn Amgueddfa Llambled rhwng 10yb a 3yp.
- 20 Helfa drysor CFfl Llanllwni. Croeso i bawb.
- 21 Ysgol Ddarlledu Radio Beca 9yb-1yp Gwesty TyGlyn, Ciliau Aeron.
- 22 Taith Tractorau Drefach ar gaeau Maesyrnnon am 10.30y.b. Elw at Multiple Sclerosis a Chlwb Cledlyn. Peter 434342 neu Jeff ar 481121.
- 23 Derbyn Newyddion CLONC.
- 25 Te Prynhawn Sefydliad y Galon yn Y Pantri, Llanbed am 2 o'r gloch.
- 27 Cinio Blynnyddol CFfl Llanllwni yng ngwesty Llanina.
- 28 Carnifal Cwmann.
- 29 'It's a Knockout' am 1yp yng nghae rygbi Llanybydder. £10 am dîm o 4, dros 16 oed, £30 o wobr.
- 30 Arwerthiant Cist Car Blynnyddol Sefydliad y Merched Pumsaint ar Gae'r Dref. Cynhelir yn y Neuadd os bydd y tywydd yn anffafriol.

MEHEFIN

- 1 Plygu CLONC yn Festri Shiloh am 4.00y.p.
- 2, 3, 4 Gŵyl Gwrw Llanfair Clydogau.
- 4 Rali CFfl Ceredigion yn Nhalybont.
- 10 Pwyllgor R.A.B.I Ceredigion Noson Gwis, Clwb Rygbi Aberaeron.
- 11 Bore Coffi Neuadd yr Hafod, Gorsgoch, gyda Chapel Brynhafod 10yb-1yp
- 11 BBQ Ymchwil y Cancr yn y Llew Du Llanybydder am 12 o'r gloch.
- 17 Ysgol Llanwenog yn cynnal ei Ffair Haf blynnyddol.
- 19 Gymanfa Ganu am 6.30yh yng nghapel Aberduar, Llanybydder.
- 20 Helfa drysor (car) am 6.00yh i ddechrau yn y clwb rygbi Llanybydder. £5 y car.
- 21 Bingo 8yh yn y clwb Rygbi Llanybydder.
- 22 Helfa drysor (cerdded) yn gadael Tanygraig, Llanybydder am 6.30yh.
- 24 Cwis yn Llew Du, Llanybydder am 7yh. £10 am dimoedd o 4.
- 25 Carnifal blynnyddol Llanybydder yn y cae rygbi i ddechrau am 1.00yp. Thema gwisgo lan yw Hollywood.
- 25 Cyngerdd Côr Meibion Cwmann a'r Cylch gyda Catrin Aur ac Ysgol Carreg Hirfaen yn Neuadd Sant Iago. Elw at Ambiwlans Awyr Cymru.
- 26 Cyngerdd Capel Maesyffynnon, Llangybi am 7.30y.h. Artistiaid: Côr y Gen o Aberystwyth. Elw tuag at y Capel. Tocyn £5.

Clwb Clonc

Mai 2016

- | | |
|-------------------------|-----------------------------|
| £25 rhif 220 : | £10 rhif 168 : |
| Meurig Jacob, | Mrs Nans Evans, |
| Gorwel, Llanybydder. | Dôlhardd, Drefach. |
| £20 rhif 517: | £10 rhif 5 : |
| Mrs Margaret Wilson, | Mrs Myfanwy Bryce, |
| Brynsiriol, Alltyblaca. | 20 Penbryn, Llambled. |
| £15 rhif 386 : | £10 rhif 290 : |
| Gethin Morgan, | Eric Jones, |
| Llys Penparc, Cae Ram, | Hafod-yr-Wyn, Gorsgoch. |
| Cwmann. | £5 rhif 438: |
| | Mrs Nanna Ryder, |
| | Tyngrug-ganol, Cwmsychpant. |

Taith Dros Fywyd

Bu cerddwyr plwyf Pencarreg yn cerdded yng Nghwmman ddydd Sul 24ain Ebrill i godi arian tuag at Sefydliad Aren Cymru. Trefnwyd y daith gan Philip Lodwick a chodwyd tua £400.

Mae'r sefydliad yn hyrwyddo, darparu a chynnal a chadw unedau dialysis mewn ysbytai, ysgolion a phrifysgolion meddygaeth. Yn ogystal â hynny maent yn darparu offer neu gyfleusterau i gefnogi cleifion arenol a hyrwyddo a chyhoeddi ymchwil meddygol ar glefydau arenol a chlefydau sy'n gysylltiedig.

Dyma'r chweched blynedd i ni gynnal y daith gerdded yng Nghwmman. Cerddwyd ar hyd y llwybr cyhoeddus newydd wrth ochr Ysgol Carreg Hirfaen i ardal New York o'r pentref, troi i'r chwith i gyfeiriad Tynrhos tuag at Benlan. Gwelwyd golygfa odidog o ddyffryn Teifi oddi yno yn ymestyn o dref Llanbed bob cam i Lanybydder.

Aethpwyd lawr wedyn i Ddeunant, pentref Parcyrrhos i Gilgell, nôl heibio Ddeunant Hall a lan yr hewl fach i Ysgol Carreg Hirfaen unwaith eto.

Roedd yn hyfryd croesawu cerddwyr a gafodd drawsblaniad aren yn cymryd rhan ar y daith. Diolch i bawb a gefnogodd.

Sefydliad y Merched

Ar y 7fed o Fawrth cynhaliwyd ein cyfarfod yn Llain y Castell, Llanbed i ddathlu Gŵyl ein nawddsant gyda chawl, pwdin reis a tharten afalau a phice ar y maen. Croesawodd Elma, ein llywydd, bawb ac yn arbennig ein dwy wraig wadd, sef Megan Richards a Mary Morgan, ac hefyd dywedodd mor braf oedd cael Gwen ein cyd lywydd yn ôl gyda ni. Mary a offrymodd y gras. Wedi'r cawl rhoddodd Elma dipyn o gefndir Megan a Mary. Mae'r ddwy yn ymddiddori mewn barddoni ac yn cystadlu mewn eisteddfodau ar hyd Cymru. Mary wnaeth ddarlenn peth o'i gwaith i ddechrau, penillion digri, stori ficro a enillodd y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth Merched y Wawr, ac hefyd darn o'i rhyddiaith am hen feddyginiaethau. Tro Megan wedyn i ddarlenn rhai o'i phenillion digri a limrigau. Roedd Megan wedi rhoi tasg i ni ar ddechrau'r noson i orffen limrig a Brenda ddaeth i'r brig. Diolchodd Gwyneth i'r ddwy am noson hyfryd. Aed ymlaen a'r cyfarfod busnes. Derbyniwyd llythyr oddi wrth Morgan Lewis yn diolch am ei noddi ar daith i Batagonia. Yr oedd Elma, Gwyneth, Morfudd, Noelene a Mary wedi mwynhau Gorymdaith Dewi Sant yng Nghaerfyrddin. Cyn gadael diolchodd Gwen i'r aelodau am eu consym a chefnogaeth yn ystod y misoedd diwethaf. Enillwyd y raffl gan Megan, Gwynfil, Noelene a Glesni.

Ein man cyfarfod ar y 4ydd o Ebrill oedd Amgueddfa Llanbed

yn hen borthordy'r Coleg sydd wedi ei sefydlu gan y Clwb Hanes a'r Coleg ar y cyd. Croesawyd ni gan ein llywydd Elma Phillips, a hi wnaeth ein cyflwyno i Selwyn Walters. Daeth Selwyn i Lanbed i ddysgu yn yr Ysgol Gyfun pan yn ifanc ac mae wedi ymdoddi i fywyd y dref ac yn weithgar mewn amryw o fudiadau. Mae yn aelod o'r Cyngor, yn weithgar iawn yn y Clwb Rygbi ac wedi ysgrifennu llyfr, The Fighting Parsons, sydd yn olrhain hanes Llanbed fel man geni rygbi yng Nghymru 150 mlynedd yn ôl. Selwyn oedd un o aelodau cyntaf Clwb Hanes Llanbed ac mae'n gadeirydd ar hyn o bryd. Ef oedd yn frwd am sefydlu amgueddfa yn y dre. Cawsom hanes ei sefydlu ganddo a chawsom gyfle wedyn i edrych o gwmpas ac roedd un o'r arddangosfeydd o ddiddordeb mawr inni gan ei fod yn dangos hanes plwyf Pencarreg. Diolchodd Morfudd Slaymaker i Selwyn a Jen am noson arbennig. Hefyd llongyfarchodd Elma a Gwyneth am wneud eu gwaith mor raenus yng nghyfarfod gwanwyn Grŵp Teifi. Da iawn chi.

Yn anffodus y mis nesaf, oherwydd afiechyd, nid yw'n bosib mynd i'r Ffatri Siocled, ond mae Gwyneth wedi trefnu i ni fynd i weld gwaith Diane Mathias, Pont Henllan. Gadael am 6.30 o Heol Hathren.

Mae cyfarfod Mehefin ar y 6ed o'r mis yn noson agored pan fydd Helen Whithouse o'r House of Colours, Hwlfordd yn ymweld â ni. Penderfynwyd gwahodd Merched y Wawr Llanbydder, Llanbed, Llanwnen, Llanddewi Brefi, Pumsaint, Cellan, Clwb Gwawr Cwmman a Chôr Corisma i ymuno gyda ni ynghyd â ffrindiau personol. Cyfarfod yn y Ganolfan am 7y.h.

Diolch

Dymuna Maureen, Brynmaen ddiolch o galon am y llu o gardiau, blodau ac anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd yn ystod ei salwch yn ddiweddar. Hefyd i'r sawl buodd yn ymweld â hi yn yr ysbyty ac hefyd ar ôl dod adref. Diolch yn fawr.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys ag Irfon, Enid a'r teulu, Bryneiddig ar farwolaeth ei mam, mam-gu a hen fam-gu annwyl sef Mrs Adeline Williams.

Hefyd, bu farw chwaer Mr Len Jones, 42 Heol Hathren.

Derbyniwch ein cydymdeimlad.

Ysbyty

Treuliodd Chris Lloyd, 8 Heol Hathren ychydig o ddyddiau yn yr ysbyty. Da deall dy fod yn well.

18 oed

Llongyfarchiadau i Sara Wyn, Llys-y-coed ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddiweddar. Gobeithio i ti fwynhau y dathlu.



Cerddwyr Taith Dros Fywyd Plwyf Pencarreg.

Clwb 125 Neuadd Sant Iago

Mis Ebrill 1. Amanda Jones, Annwylfan, Llanllwni, 21. 2. Ilse Shaw, Bryngwyn, Gorsgoch, 34. 3. Margaret Morgan, Blaenmaes, Pencarreg, 133. 4. Dafydd Davies, Ger-y-Nant, Drefach, 24. 5. Lorina Edwards, Wernview, Cwmman, 131. 6. Mrs Rosa Lloyd, 8 Heol Hathren, Cwmman, 119. 9. Graham Evans, Fferm Felinfach, Cwmman, 36.

Clwb 225

Mis Mawrth 1. Sian Roberts-Jones, Croesor, Cwmman, 208. 2. Alun Jones, Glanrhyd, Parcyrrhos, 45. 3. Llion Herbert, 5 Cysgod y Coed, Cwmman, 191. 4. Cerdin Price, Langwm, Heol-y-Bryn, Llambled. 5. Mr & Mrs Graham Hope, Postgwyn, Cwmman, 195. 6. Gwynfor Lewis, Bronwydd, Heol-y-Bont, Llambled, 1. 7. Sallie Jones, Hathren, Heol-y-Bont, Llambled, 201. 8. Eric Williams, Y Fedw, Cwmman, 10. 9. Llywellyn James, Angorfa, 58. 10. Daniel Davies, Bryndeifi, 55.

90 oed

Pen-blwydd hapus i Ceinwen Russell, Coedeiddig sydd yn 90 oed ar ddechrau mis Mai.

Ysgol Carreg Hirfaen

Cafodd pob un o aelodau'r Urdd ym mlwyddyn 2 gyfle i gymryd rhan yn y gystadleuaeth printio ar gyfer yr Eisteddfod Gelf. Y thema eleni oedd 'perthyn'. Cafodd Hari Jones y drydedd wobr am ei brint o dractor a threilar. Da iawn Hari.

Mae plant y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn dysgu am bwysigrwydd prynu nwyddau Masnach Deg a sut mae hynny'n helpu ffermydd y Trydydd Byd. Cafwyd ymateb gwyb, a phob un o'r plant yn edrych allan am yr arwydd tra'n siopa gyda'u rhieni.

Cafodd tîm pêl-droed merched a bechgyn Carreg Hirfaen ddiwrnod arbennig ar gaeau Blaendolau, Aberystwyth yn ystod y mis, wrth iddynt gystadlu yn nhwrnament yr Urdd. Enillodd y merched ei gemau

grŵp felly ymlaen â nhw i'r wyth olaf wrth iddynt chwarae yn erbyn ysgol Penparc. Erbyn diwedd y gêm nid oedd neb wedi sgorio felly ymlaen â nhw i amser ychwanegol. Sgoriodd Seren James gôl arbennig i sicrhau lle yn y pedwar olaf. Ar ôl brwydro ar y cae am ddeng munud colodd tîm y merched yn erbyn ysgol Llandysul. Bendigedig ferched.

Ar ddydd Gwener, Ebrill 22ain cafodd plant blwyddyn 3 a 4 y cyfle i fynd i'r Goedwig Wyllt yn Abertawe fel rhan o'u thema. Cafodd y plant y cyfle i chwilota am drychfilod, adeiladu tai trychfilod a chwilio am blanhigion a choed o gwmpas y goedwig. Er gwaetha'r glaw mwynhaodd y plant mas draw.

Llongyfarchiadau i Joshua Morris o flwyddyn 1, sydd wedi cael ei ddewis i hyfforddi gyda thîm Abertawe o dan 6. Mae'n teithio i Abertawe unwaith yr wythnos i gael hyfforddiant. Arbennig Joshua.



Mae Hari Jones o flwyddyn 2, eisoes wedi bod yn ymarfer gyda'r tîm am ddwy flynedd bellach a dros yr wythnosau diwethaf mae wedi cael y cyfle i deithio o gwmpas y lle yn chwarae yn erbyn timau o Arsenal, Southampton, Chelsea a Bryste. Cafwyd gemau cyffrous iawn ac yn Chelsea, chwaraeodd Hari yn erbyn mab Jamie Redknapp. Mae Hari yn ymarfer dwywaith yr wythnos yn Abertawe ac yn chwarae gemau ar ddydd Sadwrn. Caria ymlaen i weithio'n galed Hari.

Ysgol Llanllwni

Croeso i Steffan Davies a Stanley Davies i ddosbarth y Cyfnod Sylfaen. Maent wedi ymgartrefu'n dda ac yn hapus ymhlith eu ffrindiau. Croeso hefyd i Danyel Thomas a Leah Cope sy'n dod yn rhan amser atom.

Derbyniwyd £188 oddi wrth Bags2school a diolchwn i bawb a ddaeth â bagiau o ddillad i'r ysgol.

Mae ein diolch yn fawr i'r Cyngor Bro am rodd o £500. Rydyn yn gwerthfawrogi eu cefnogaeth i'r ysgol.

Bu disgyblion hyna'r ysgol yn cymryd rhan yn nhwrnament Rygbi Tag yn Aberaeron. Cawsant hwyl yn chwarae yn erbyn timoedd o ysgolion eraill a datblygu eu sgiliau rygbi.

Bu Llysgenhadon Efydd yr ysgol sef Hanna a Gwion, ar gwrs yn Llanbed gan rannu eu profiadau a chael syniadau o weithgareddau pellach i'w defnyddio nôl yn yr ysgol. Ers gwyliau'r Pasg maent wedi dechrau cynnal sesiynau Campau'r Ddraig i'r Cyfnod Sylfaen amser cinio bob dydd Gwener. Mae'r plant bach yn edrych ymlaen at y sesiynau yma.

Bu disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn ysgol Llanybydder am fore pan ddaeth ymwelydd o'r elusen NSPCC i siarad a chynnal gweithgareddau.

Trefnodd y Cyngor Eco bod y disgyblion i gyd yn mynd ati i dacluso'r ardal allanol gan chwynnu, plannu hadau a blodau yn y potiau ar Ddiwrnod Eco.

CFfi Llanllwni

Ar y 2il o Ebrill, aeth tair aelod o'r clwb, Sioned Howells, Siriol Howells a Marek Phillips, i gystadlu yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymru ar faes y Sioe Frenhinol yn Llanellwedd. Ar ôl diwrnod hir o gystadlu, daeth tîm Sir Gâr a oedd yn cynnwys Siriol yn fuddugol yn y Darllen Saesneg dan 14, ac ar yr 2il o Orffennaf byddant yn mynd ymlaen i gystadlu yn erbyn y Saeson yn Stafford. Pob lwc i'r tri ohonyn nhw yng nghystadleuaeth darllen Saesneg yn erbyn y Saeson! Yn ogystal, daeth tîm Sir Gâr hefyd yn drydydd yn y darllen Cymraeg, a oedd yn cynnwys Siriol a Marek. Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonoch chi.

Eleni, yn dilyn ein llwyddiant yn y Rali Llynedd, roedd yn braf gennym fel aelodau'r clwb gael y cyfle i groesawu aelodau CFfi Sir Gâr atom ni yma'n Llanllwni ar gyfer y diwrnod Gwaith Maes, a gynhaliwyd ar fferm Penllain, dan garedigrwydd Keith, Rhian a Hefin Jones. Diolch iddynt fel teulu am eu cefnogaeth a'u parodrwydd i'n cynorthwyo, yn ôl eu harfer. Hoffem ddiolch fel clwb i bawb a ddaeth â stoc, Heulyn Thomas a'r teulu, Bwlchclawdd am ddod â'r moch ac i deulu Howells, Pantglas am yr ŵyn. Diolch i deulu Davies Gwndwn am

gynnal yr adran gwartheg godro, ac yn yr un modd i Wyn Thomas, Bryn-llo Fawr am ei gymorth wrth baratoi a chynnal yr adran biff. Braf oedd clywed sawl un yn canmol safon y stoc. Diolch i bawb a fu'n stiwardio gyda'r stoc, y bwyd, y parcio a'r lluo o gystadlaethau eraill ar y diwrnod, i sicrhau ei bod yn llewyrchus. Llongyfarchiadau i Anwen Jones am ddod yn drydydd yn y stocmon hŷn; Arwel Jones a Carwyn Lewis, ynghyd ag un aelod o'r clwb am ddod yn drydydd yn y ffensio hŷn; Lewis Thomas, Hefin Jones a Steffan Evans am ddod yn drydydd yn y ffensio iau; ac yn olaf i Arwel ac Aled Jones am ddod yn gyntaf yn y sialens ATV, ac i Anwen Jones am ddod yn ail yn yr un gystadleuaeth fel rhan o dîm y sir. Llongyfarchiadau i bawb am ddiwrnod llwyddiannus iawn.

Ar nos Wener y 15fed, roedd ein Bingo blynyddol yn Nhafarn y Talardd, ac am unwaith roedd aelodau'r clwb i gyd yn dawel wrth ddisgwyl yn eiddgar am y rhif nesa! Diolch i bawb a ddaeth i'n cefnogi ac am ddod â gwobrau i'r raffl.

I orffen ein cyfarfodydd wythnosol am eleni, cawsom gystadleuaeth 'Bake Off' yma yn Llanllwni. Y beirniaid oedd ein Paul Hollywood a Mary Berry ein hunain, sef Geraint Pant-y-coubal a Huw Charles, ac mae'n rhaid gweud iddynt gymryd y swydd o ddifri a marcio'r aelodau yn drwyadl iawn! Pencampwyr y noson oedd Meryl a Hefin. Canmoliaeth uchel i chi eich dau am eich Welsh cakes penigamp!

Bu tri aelod o'r clwb yn cynrychioli Sir Gâr yn niwrnod Gwaith Maes Cymru. Ond nid yn unig eu bod yn tri aelod, roeddynt yn dri aelod o'r un teulu! Roedd Anwen yn rhan o dîm barnu stoc hŷn y sir, a daeth y tîm yn fuddugol dros Gymru, gydag Anwen yn ail fel unigolyn yn y gystadleuaeth. Arwel ac Aled wedyn oedd yn cynrychioli Sir Gâr yng nghystadleuaeth y cwrs ATV. Llongyfarchiadau mawr i chi eich tri!

Mae'r aelodau yn brysur ar hyn o bryd yn paratoi gogyfer â'r rali blynyddol ar yr 14eg o Fai, ar Faes y Sioe, Nant-y-ci. Da chi, dewch draw, mae yna lu o bethau i'w gweld yno drwy gydol y dydd, a bydd safon y cystadlu yn eich synnu!

Os ydych am wâc fach hamddenol o amgylch yr ardal, ymunwch â ni yn ein Helfa Drysor nos Wener yr 20fed o Fai. Wythnos yn ddiweddarach, ar nos Wener y 27ain o Fai, bydd ein cinio blynyddol yng Ngwesty Llanina. Croeso cynnes i unrhyw un sy'n dymuno dod atom ni am noson o wleda a joio; cysylltwch â Nerys ein hysgrifenyddes neu Meryl ein trysorydd.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Russell a



Plant Cylch Meithrin yn mwynhau sesiwn jambori pan ddaeth Sara i ganu, dawnsio a chwarae gemau gyda'r plant.



Meryl ac Hefin gyda Huw a Geraint y beirniaid yn noson 'Bake Off' CFfi Llanllwni.



Siriol o Glwb Llanllwni yn aelod o dîm buddugol Cymru yn y gystadleuaeth darllen Saesneg.

Betty Prydderch, Tyngrug ar ddathlu Priodas Aur ganol mis Ebrill.

Undeb y Mamau

Fis Mawrth daeth Rob Evans o Abertawe i'n cyfarfod i ddangos ei sleidiau o Gymru, o Fôn i Fynwy. Dechreuodd ym Miwmaris gyda llongddrylliad y Royal Charter, ac roedd hanes ei deulu yn ei araith hefyd. Roedd hon yn awr ddiddorol iawn.

Ym mis Ebrill cawsom gwmni Mrs. Heather Witt, gwraig un o'n cyn Ficeriaid, y Parchedig Brian Witt, nawr o Landdarog. Dewisodd Heather siarad am hanes ei theulu, a chafwyd llawer o chwerthin yn

ogystal ag eiliadau difrifol.

Fis Mai byddwn yn mynd ar ein gwibdaith flynyddol.

Eglwys St Luc

Ar ddydd Gwener y Groglith cafwyd gwasanaeth teuluol am 10.30 y bore, yn dilyn cyfnod olaf bywyd yr Iesu. Symudodd y gynulleidfa i wahanol safleoedd o fewn yr Eglwys: y Swper Olaf yn y Festri; gardd Gethsemane yng nghôr y Manor, y Fedyddfan, a'r Allor. Darllenwyd gwahanol rannau o'r Beibl gan y plant a'u rhieni. Roedd y naws yn hyfryd, a diweddwyd gyda the yn y Neuadd.

CH
Gwallt gan Caryl

Yn Toriad Taclus Llanybydder:
Dydd Llun 9.00-7.00 a Dydd Mawrth 9.00-5.30
Teithiol:
Dydd Iau 9.00-2.30 a Dydd Gwener 9.00-5.00

Caryl Herrick
carylchw@hotmai.co.uk
Salon: **01570 481425**
Symudol: **07971629001**

Graham Jones

Gwasanethau Cyfrifiaduron

- ★ Datrys Problemau a Trwsio
- ★ Ymweliadau Cartref o £45
- ★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a Pherifferolion Ar Werth
- ★ Gwasanaeth Adfer Data
- ★ Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn **01545 560776**
neu **07715 740777**
www.tynici.com
graham@tynici.com

Dawns Emporium
Rhoddion Cymraeg a Phersonol

07818 020907
Drefach, SA40 9SX

f dawnsemporium
www.dawnswelshgifts.co.uk

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambled
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan, beic modur **Yswiriant tŷ/ cynnwys**
Teithio **Fferm a busnes**
Cyfrifoldeb **Anifeiliaid**

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cynghor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: **01570 422401**
Ffacs: **01570 422562**

Llanllwni

Cylch Meithrin Llanllwni
Hoffai'r pwyllgor ddiolch yn fawr i Dai a Mel am gynnal y Bingo i'r Cylch Meithrin ar 21 Mawrth 2016.
Cynhelir y Cyfarfod Blynnyddol nos Iau 12 o Fai am 7:30yh yn Ysgol Gynradd Llanllwni. Croeso cynnes i rieni hen a newydd!

Cylch Ti a Fi
Gweithgareddau Ti a Fi mis Mai:
6/5/16 - peintio wyneb; 13/5/16 - chwarae tu allan; 20/5/16 - chwarae dŵr a thywod; 27/5/16 - picnic yn y parc
Cynhelir Cylch Ti a Fi bob bore Gwener o 9:30 hyd 11:30 yn Ysgol Gynradd Llanllwni. Croeso i rieni, gofawyr, mamgus a thadus i ddod gyda'u plant i gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros banded.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Nigel a Rhian Brynhedd ar enedigaeth mab bach sef Jac Eirwyn ac hefyd ŵyr bach i Emyr a Iris Evans, Cefncoedisaf.

Pencarreg

Merch fach
Yn ystod y mis ganwyd merch fach Matilda Efa i Megan a Shaun Jones, Llwynian, wyres fach gyntaf i Barrie a Sheila Jones, Llygad y Ffynnon, Llambled a Richard a Sue Evans, Llaethlliw, Neuaddlwyd, a gor-wyres i Oriel Jones, Mackwith Castle, Llanfihangel ar Arth, Nesta Jenkins, Alltwen, Cribyn a Mrs Peggy Evans, Llambled. Llongyfarchiadau mawr i bawb a phob dymuniad da.

Hanner Marathon Caerdydd
Ar 26ain o Fawrth 2016, penderfynodd Sian Elin, Muriau Gwyn redeg Hanner Marathon Caerdydd er cof am ei thad-cu, Non Evans, Blaencarreg, Pencarreg. Ar ôl wythnosau o godi arian codwyd £800 at Elusen Strôc. Hoffai Sian Elin ddiolch o waelod calon am bob cyfraniad. Mae hi a'i theulu yn ei werthfawrogi yn fawr.

Llwyddiant cerddorol
Llongyfarchiadau i Chloe Jones, Cysgod y graig am basio Gradd 2 ar y piano gyda chlod dan nawdd y 'London College of Music' yn ddiweddar. Da iawn ti.

Alltyblaca

Cartref Newydd
Dymuniadau gorau i Tina, Mark a Iestyn Jac Wilson yn eu cartref newydd yn ardal Caerfyrddin, a chroeso i Alltyblaca i ddeiliaid newydd Llwynhelyg.

Corsgoch



Cerddwyr Taith Dros Fwyd Plwyf Llanwenog o flaen Cefnhafod.

Cydymdeimlo
Cydymdeimlir yn ddwys â theulu Dolmaen ar golli brawd yng nghyfraith sef Glyn T Jones, Aberystwyth.

Llongyfarch
Llongyfarchiadau i Manon, Lan, Cynwyl Elfed (Maesygarth) ar gael ei derbyn yn aelod llawn o Gerddorfa Ieuencid Cymru yn ddiweddar.

Cydymdeimlo
Rydyn ni'n cydymdeimlo â theulu,

cymdogion a ffrindiau Isla Shaw, Bryngwyn.

Neuadd yr Hafod
Mae gan Neuadd yr Hafod, Gorsgoch, Glwb cefnogwyr ac rydym wedi tynnu enillwyr 4 mis yn barod. Yr enw cyntaf bob mis yn cael £6 a'r ail yn cael £4. Dyma'r canlyniadau. Ionawr: Emyr Jones a Huw Evans, Chwefror: Daniel Morgans a Manon Richards, Mawrth: Dai Evans a Gethin Hatcher, Ebrill: Manon Morgans ac Ernie Hatcher.

THE FALCONDALE
HOTEL & RESTAURANT
GWESTY A BWYTY

Gŵyl y Banc yn Mis Mai
29ain o Ebrill i 2ail o Fai
27ain o Mai i 30ain o Fai

Te Prynhawn
Ymunwch â ni am De Prynhawn ar y teras neu yn y conservatory unrhyw ddiwrnod o'r wythnos. Am £18.50 y pen cewch ddewis o de neu goffi, cacennau, bisgedi, toes melys a sawrus, a brechdanau.
Archebwch fwrdd 24awr o flaen llaw.

Cinio Dydd Sul
Cinio dydd Sul traddodiadol 3 chwrs gyda the neu goffi am £27.50 y pen.

01570 422910
info@thefalcondale.co.uk
www.thefalcondale.co.uk

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chiwysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambled
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

- * Blinder / diffyg egni
- * Meigrin
- * Sdrauca
- * Irritable Bowel Syndrome
- * Menstrual problems
- * a mwy

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees

01545 590164

07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhegog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gofologofn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
a glanhau.
Ac yn golchi duvets.



MIS y PaPur Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

Siarad rybish

Dw i'n cofio cerdded sawl tro hyd lonydd gwledig yr ardal yma, yn enwedig i fyny ar y brynau, a dotio at allu a dychymyg ffermwyr.

Nid oherwydd rhyw gnydau arbennig o doreithiog neu beiriant clyfar oedd yn gweddnewid yr hen grefft, na hyd yn oed oherwydd sgubor drawiadol.

Y testun edmygedd bron bob tro oedd clawdd, neu yr hyn y bydden ni yn y Gogledd yn ei alw'n wrych – y rhan sy'n mynd ar dop y clawdd pridd neu gerrig.

Roedd rhai o'r creadigaethau hynny'n rhyfeddol, yn dangos dyfeisgarwch mawr – hen fframiau gwely, darnau amrywiol o gelfi tŷ, hen doon sinc a darn o ambell gar ... y cyfan ynghlwm yn ei gilydd i greu campwaith.

Mi allech chi basio heibio ambell i dŷ cyffredin hefyd a gweld yr un gwreiddioldeb ar waith. Riwbob yn tyfu mewn hen doilet, falle, neu hen ffrij wrth yr iet er mwyn i'r postmon adael llythrau.

Prin ydi golygfeydd felly erbyn hyn. Mae rheolau a grantiau a phwysau economaidd yn golygu bod y rhan fwyaf o ffermwyr yn ffensiō'n daclus, heb sôn am reolau helthansefti.

Os byddwn ni'n ailgylchu heddiw, gwneud hynny mewn lle pwrpasol fyddwn ni – o finiau maes parcio Llanybydder i'r ganolfan sydd gan LAS yn Llanbedr. Hynny, neu daflu pethau.

Yn ystod y cwpwl o flynyddoedd diwetha', mae taflu sbwriel wedi mynd yn broblem fawr, ar yr un tir uchel lle'r oeddwn i'n arfer edmygu'r cloddiau. Nid ffermwyr sydd ar fai, ond pobol yn cario llwythi o rybish i gyrion coedwigoedd a cheunentydd a'u taflu yma ac acw.

Ac unwaith y bydd un person wedi gwneud, mi fydd yna rai eraill y dilyn. Mae yna ambell ran o flynyddoedd Llanybydder neu Bencarreg yn edrych fel tomen byd.

Yn un lle, mae yna gegin gyfan, fwy neu lai, wedi'i harllwys i lawr llethr bychan – yr hen gypyrddau MFI-aidd, y peiriant golchi a'r silffoedd ac ambell i fag du yn llawn sothach hefyd.

Wrth y fynedfa i goedwig arall uwchben Gallt y Mynydd, mae yna sacheidiau o sbwriel cyffredin a hen deganau. Mi allai selogion hiliol UKIP gael modd i fyw o weld yr ysgrifen Pwylaidd ar rai o'r bocsys ... ond mi fyddai hynny'n golygu anwybyddu mai sgrifen Saesneg sydd ar bopeth arall.

Tydi pob ffarmwr ddim yn hollol ddieuog chwaith; mewn ambell le, mae yna fagiau ffid a gwrtaith fel bynting. A deunydd lapio'r byrnau mawr yn gwneud iddi edrych fel petai angladd wedi bod.

Plastig ydi rhan o'r broblem. Pren go iawn oedd cypyrddau cegin erystalwm ac roedd modd ei ail ddefnyddio, neu hyd yn oed ei droi'n goed tân. Sachau hessian oedd hi hefyd, a Taid – a phob gwas ffarm arall – yn defnyddio'r rheiny yn lle cot tros ei ysgwyddau yn y glaw.

Un peth sy'n anodd ei ddeall ydi fod pobol yn mynd i'r fath drafferth i wneud hyn, i gario sbwriel am filltiroedd, a hithau mor hawdd i fynd â'r cyfan i un o'r canolfannau. Mae llawer o'r rybish y math o beth y byddai'r 'lorri ludw' yn mynd ag ef o garreg y drws yn y bagiau du. Yn rhad ac am ddim.

Y peth arall ydi'r hyll-dra. Mae'r sbwriel yn aml yn cael ei daflu mewn mannau hardd ac amlwg, fel petai'r taflwyr yn myd ati'n fwriadol i wneud pethau'n waeth, gan ddilyn egwyddor yr hen ddywediad: amlwg llaid ar farch gwyn.

Mae yna ddeddfau, wrth gwrs, i atal gweithgareddau o'r fath ond mae bron yn amhosib plismona milltiroedd ar filltiroedd o flynyddoedd a choedwigoedd. Ac mewn cyfnod o wasgfa ariannol, go brin fod chwilio am daflwyr sbwriel yn un o'r blaenoriaethau mawr.

Yr unig ateb yn y diwedd ydi balchder a'i bod yn fater o gywilydd i gael eich gweld yn gwaredu sbwriel ymhobman. Y peryg ydi na fydd hynny'n effeithio dim ar y taflwyr ... fyddan nhw fyth yn mynd am dro yn y mannau y maen nhw'n eu sarnu.

Cefn Hafo

Gorsgoch

Cyri bob nos Wener,
£6 y pen

Prydiau bwyd ar gael drwy'r
wythnos

Nos Lun– Nos Sadwrn

Bwyd Cartref a Chwrrw da.
Croeso cynnes i bawb!
01570 434 238

W.D. Lewis

o'i Fab
Agricultural Machinery

Melin Mark Lane Mill

Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG

Tel: 01570 422540

Fax: 01570 423644

www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn

Brone Stores

Pumsaint, Llanwrda

Tel: 01558 650215



Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Danteithion i de

* Pwdinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045

Alec Page Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,
Llambled.

01570 423955

www.alecpageblacksmith.co.uk

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyio cyflawn
ar gyfer pob achlysur:

Hefyd yn Ystafell Weini cysurus
Clwb Rygbi Llambled yn gwneud:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 2.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

Bwydlenni unigol i ateb eich
gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach



Peiriant
Rhostio
Mochyn
ar gael

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:

Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.

WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHWYR.
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

1 Sgwâr Harford,
Llambled

☎ 01570 422206 ☎ 01570 423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.



Alun ac Eifion Williams, Crown Stores

Enwau cyfarwydd i siopwyr tref Llanbed ers blynyddoedd, wedi eu geni a'u magu yn yr ardal, a'r ddau yn ddynion busnes craff a gweithgar. Mae Alun ac Eifion yn wŷr sionc a llawen yn eu gwaith bob dydd ond bellach, wedi cyrraedd oedran ymdeol. Dyma ychydig o hanes dau gymeriad bro sydd wedi cyfrannu'n helaeth i fyd siopau Stryd Fawr Llanbed a thu hwnt ar drothwy diwedd cyfnod iddynt yn bersonol ac i fasnach y dref.

Ganwyd y ddau frawd ar aelwyd hapus Johnnie Howell a Margaret Williams, 7 Treherbert, Cwmann a symud i gartref newydd sef Brynywawr yn 1953. Mynychwyd Ysgol Coedmor ac Ysgol Uwchradd Llanbed. Alun yw'r hynaf ac Eifion oedd y cyw melyn olaf. Ond dewis dilyn ôl traed eu rhieni a wnaeth y ddau yn bymtheg oed a mentro i fyd busnes.

Dyma ddau ŵr bonheddig nodweddiadol o ddynion busnes. Dau gymeriad siaradus a chwrtais bob amser sydd wedi llwyddo i gynnig gwasanaeth personol i'w cwsmeriaid dros y degawdau. Dau Gymro glân, diwylliannol ac egwyddorol hefyd sydd wastad yn barod i gefnogi achosion lleol.

Prynwyd Crown Stores gan Mr a Mrs Williams, eu rhieni yn 1958 - gyda Johnnie Howell yn rhedeg ochr y bwyd a Margaret yn arbenigo mewn llestri. Roedd mwy o ddiddordeb gan Alun mewn treulio amser yn y siop nac eistedd mewn gwersi, felly gadael ysgol oedd ei hanes gan gynorthwyo ei rieni ac ehangu'r busnes i werthu papur wal a phaent.

Pan drodd Eifion yn bymtheg oed, gweithio yn y siop oedd ei ddiddordeb e hefyd gan fod yn absennol am dymor cyfan ar ddiwedd ei gyfnod yn yr ysgol. Dilyn ei dad a wnaeth e gan redeg ochr fwyd y busnes ac ehangu'r ddarpariaeth gydag amser.

Doedd gorffwys ar eu rhwyfau ddim yn ddewis iddynt. Byddai rhai wedi bodloni ar barhau i redeg y cwmni parchus a etifeddwyd ganddynt. Ond na, doedd hynny ddim ddigon yn achos Alun ac Eifion. Pwy sy'n cofio pedair siop ganddynt yn Llanbed ac un yng Nghaerfyrddin hyd yn oed? Mae menter yn llifo yng ngwythiennau'r ddau. Dros y blynyddoedd, buddsoddwyd yn helaeth gan gyflogi hyd at ugain o staff yn anterth y busnes yn y nawdegau.

Trowyd y siop fwyd yn siop hunan wasanaeth yn 1964 - peth arloesol iawn yn y cyfnod hwnnw. Bu gwaith adeiladu helaeth yn y cefn yn y saithdegau er mwyn ehangu'r busnes papur wal a phaent. Agorwyd siop nwyddau cartref drws nesaf yn 1981, dyblwyd maint y siop groser yn Llanbed ac agorwyd siop lestri yng Nghaerfyrddin yn 1984, a hynny ar adeg anodd iawn i'r teulu. Bu farw eu tad ym 1983.

Ond mynd o nerth i nerth oedd y busnes teuluol gyda Mam yn parhau i chwarae rôl flaenllaw yn y siop.

Roedd y ddau yn gweithio bob awr o'r dydd er mwyn sicrhau twf y busnes. Gallech weld golau yn siop tan oriau mân y bore a'r faniau wedi parcio tu fas. Ychydig iawn a wŷr am y gwaith paratoi tu ôl y llenni mewn byd busnes ac roedd Alun ac Eifion yn benderfynol o fynd â'r maen i'r wal. Roeddent hyd yn oed yn mynd â stondinau i werthu ffrwythau i sioeau ac eisteddfodau lleol. Gallech ddadlau bod y ddau yn briod â'r busnes gan nad oedd amser i lawer o fywyd cymdeithasol yn ystod cyfnod tyfiant y busnes.

Ond daeth tro ar fyd, a diolch i'r busnes y llwyddodd Alun ac Eifion i gwrdd â'u cymheiriaid. Priodi'r un a ga'th ei gwrthod oedd hanes Alun. Wedi hysbysebu am weithiwr newydd ar gyfer y siop yng Nghaerfyrddin cafwyd 40 o ymgeiswyr a llwyddodd Alun i dynnu rhestr fer o ddwy. Rhoddodd y swydd i Elin ond roedd ei lygaid ar y llall hefyd ac fe gyflogwyd Sharon ymhen dwy flynedd. Taniwyd y sbarc rhwng y ddau ar daith 'fusnes' i lansiad Ritz Crystal gan Royal Doulton yng Ngwesty'r Ritz yn Llundain. Sharon oedd yr un a gafodd fynd gydag Alun i'r digwyddiad arbennig hwnnw.

Un o Dalog yw Sharon a phriododd y ddau ym 1992. Sharon oedd â gofal dros y siop yng Nghaerfyrddin wedyn dros y blynyddoedd. Mae'r ddau yn byw yn hapus ym Mhencader. Penderfyniad busnes meddai Alun, yn ganolog rhwng y ddwy siop lestri yng Nghaerfyrddin a Llanbed.

Dechreuodd aelod newydd o staff yn y siop yng Nghaerfyrddin yn 1991. Roedd Nesta yn byw yng Nghaerfyrddin ac un noson wrth gau'r siop, roedd yn cael ffwdan gyda'r larwm. Doedd Alun ddim ar gael i gynorthwyo'r noson honno a galwyd ar Eifion i achub y dydd. Priododd y ddau ym 1993 ac ymgartrefu ym Mrynywawr Cwmann. Ganwyd mab a merch iddynt sef Dafydd sy'n fyfyrwr yng Nghaerdydd a Bethan sy'n gweithio yn Gwdihws, Llanbed.

Wrth edrych nôl dros y blynyddoedd, mae'r atgofion yn llifo, a chof y ddau yn finio iawn wrth restru pobl, achau a dyddiadau allweddol. Cofia Alun fel roedd yn gwerthu llestri at ddefnydd bob dydd ar y dechrau cyn arbenigo mewn llestri a gwydr o wneuthuriad arbennig a safonol. Daeth yn adnabyddus gan gwsmeriaid o bell ac agos am werthu Royal Doulton, Royal Worcester, Wedgwood a'u tebyg ac am lwyddo yn 2009 i ennill Gwobr 'China and Glass Specialists' i'r siop dros Wledydd Prydain

mewn seremoni yn Llundain. Roedd yn aelod o 'Guild of China and Glass Specialists' gan fynychu cyfarfodydd i drafod cynnyrch newydd a chomisiynu argraffiadau arbennig.

Alun oedd yn gyfrifol am gomisiynu ffigurau Cymreig gan gwmnïoedd adnabyddus, ac ym 1984 gwerthodd blatiau a chwpanau yn nodi ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol â'r ardal.

Bu Alun yn Gadeirydd Siambr Fasnach Llanbed ac yn Llywydd y Gymdeithas Amaethyddol. Mae'n cydnabod dylanwad mawr mudiad y Ffermwyr Ifanc ar ei fywyd. Bu'n gadeirydd, trysorydd a llywydd Clwb Cwmann. Mae'n ddiagon yng Nghapel Noddfa ac yn Llywydd Côr Meibion Cwmann a'r Cylch ers ugain mlynedd. Mae'n edrych ymlaen felly, fel y gall Sharon ac yntau fwynhau mwy o'r gweithgareddau hyn a theithio ar ôl ymdeol.

Edrych ar ôl cwsmeriaid mwy lleol oedd arbenigedd Eifion yn y siop fwyd a ymdebygai i archfarchnad fach. Llwyddodd i gynnal y busnes gan werthu bwydydd ffres, bwydydd wedi rhewi, diodydd, losin a hyd yn oed bapurau newydd. A hyn oll yn ystod cyfnod cystadleuol o sefydlu archfarchnad fawr gerllaw ac am flynyddoedd mawr wedi hynny. Symudodd gyda'r oes gan ymuno â grŵp cydweithredol Nisa er mwyn marchnata a chyflwyno cynigion arbennig yn y siop.

Roedd Eifion yn rhagori ar unrhyw archfarchnad gan y sicrhodd wasanaeth personol. Nid o'r golwg yn y swyddfa oedd Eifion, ond ar lawr y siop yn cyfarch y cwsmeriaid a gofalu am eu hanghenion. Cyn bod sôn am wasanaeth diweddar yr archfarchnadoedd yn cludo bwyd i gartrefi, bu Eifion yn gwneud hynny erioed o Crown Stores. Gallech adael rhestr ganddo yn y siop a galw nôl i gasglu'r nwyddau yn hwyrach. Dyn o flaen ei amser ydyw.

Tra'r oedd yn ifanc bu Eifion yn aelod gweithgar o Glwb Ffermwyr Ifanc Cwmann. Bu'n drysorydd y clwb ac yn gadeirydd Aelwyd Llanbed yn ogystal ag yn un o aelodau gwreiddiol y Cylch Cinio. Wrth ei holi sut y bydd yn treulio ei amser ar ôl ymdeol, ei ateb oedd bod ganddo lawer o lyfrau heb eu darllen. Mae'r teulu yn bwysig iawn iddo hefyd.

Mae'n mynd i fod yn olygfa ryfedd yn y Stryd Fawr heb gwmni J H Williams a'i Feibion. Dyma hoelen arall yn arch yr iaith Gymraeg yn y dref medd rhai, a siop arall yn llai i dynnu cwsmeriaid i'r dref yn wirionedd anodd ei lyncu i eraill. Tra bu J H Williams a'i Feibion yn masnachu, roedd y teulu a'r staff yn cynnig gwasanaeth Cymraeg naturiol. Roedd y siopau yn atyniadau mawr hefyd. Roedd pobl yn dod i Lanbed i brynu llestri yn Crown Stores, ac o ganlyniad yn gwario'u harian mewn siopau eraill hefyd. Colled.

Diolch amdanynt ac am eu cyfraniad. Ymdeoliad hapus ac haeddiannol.



Eifion ac Alun, Crown Stores

Ceredigion

Cynhaliwyd Cwis Iau'r Sir ar yr 21ain o Fawrth mewn dau leoliad eleni sef Neuadd Llangeitho i glybiau'r gogledd ac i glybiau'r de yn Neuadd Ysgol Dyffryn Teifi. Cafwyd nifer o glybiau yn cystadlu a braf gweld y ddwy neuadd yn llawn dop o aelodau brwd. Llongyfarchiadau i glwb Llanddeiniol am ddod i'r brig ac i glybiau Felinfach a Llanwenog am ddod i'r ail safle. Diolch i Nia a Meinir am gynnal y cwis ac i'r swyddogion am yr help llaw yn ystod y noson.

Er mwyn cael bach o hoe ar ôl yr holl gystadlu, roedd hi'n gyfle i fynd lawr i gael hwyl a digon o ddwli yng Nghlwb Rygbi Aberaeron ar gyfer Diwrnod Sul Hwylus y Pasg ar y 27ain o Fawrth. Dwi'n siŵr fod pawb wedi mwynhau mas draw a diolch i Catrin Reynolds am gynnal y diwrnod, ac i DJ Bry am gynorthwyo. Diwrnod llawn sbort yn wir.

Ar yr 2il o Ebrill, roedd hi'n ddiwrnod Siarad Cyhoeddus Cymru a gynhaliwyd ar Faes y Sioe yn Llanellwedd. Dyma ganlyniadau'r cystadlaethau oll. Adran Ddarllen 14 oed neu iau: Darllenyydd Gorau – Gwion Ifan, Pontsian. Tîm dan 14 oed neu iau a ddaeth i'r brig. Aelodau'r tîm oedd Beca Jenkins, Gwion Ifan a Caleb Rees – y tri ohonynt o Glwb Pontsian. Adran Iau 16 oed neu iau: Siaradwr Gorau – Nest Jenkins, Lledrod. Tîm dan 16 oed neu iau a ddaeth i'r brig. Aelodau'r tîm oedd Ffion Evans, Llanwenog; Nest Jenkins a Catrin Jones, Lledrod. Adran Ganol 21 oed neu iau: Daeth y tîm i'r 3ydd safle. Aelodau'r tîm oedd Rhys Davies, Llanwenog, Meleri Morgan, Llangeitho, Elin Calan Jones, Llangwryfon a Lowri Jones, Lledrod. Adran Hŷn 26 oed neu iau: Siaradwr Gorau – Enfys Hatcher, Llanwenog. A daeth y tîm i'r brig ar ddiwedd y cystadlu. Aelodau'r tîm oedd Cennydd Jones, Pontsian, Enfys Hatcher a Luned Mair o Llanwenog. Ac wrth i'r cystadlaethau ddod i'w terfyn, dyfarnwyd Sir Geredigion yn gyntaf ar ddiwedd y dydd.

Yr un diwrnod, roedd y gystadleuaeth 'Ymgeisio am Swydd' yn cymryd lle a daeth llwyddiant i ran Eiry Williams, Llangwryfon gan iddi ddod yn gydradd 2il. Llongyfarchiadau mawr i bawb a wnaeth gystadlu ac mae'n amlwg fod yr holl waith caled wedi talu ffordd. Diolch i'r hyfforddwy'r a'r cefnogwyr. Da iawn i chi gyd.

Ar y 6ed o Ebrill, roedd hi'n noson Hyfforddiant Barnu Defaid Lleyn. Daeth 41 o aelodau'r mudiad i'r hyfforddiant. Diolch yn fawr iawn i Keith Evans o Meles Lleys am y croeso ac am noson addysgiadol.

Cynhaliwyd Cystadleuaeth Effeithiolrwydd a Diogelwch ar y 10fed o Ebrill gyda phob clod i Glwb Troedraur am ddod i'r brig, gyda Caerwedros yn 2il ar ddiwedd y cystadlu.

Nesaf ar y calendr roedd y gystadleuaeth Gala Nofio a gynhaliwyd ym Mhwl Nofio Aberaeron ar y 15fed o Ebrill. Braf gweld nifer fawr o aelodau'r mudiad yn cystadlu. Ar ddiwedd y noson cafodd Ifan Morgan Davies o glwb Felinfach y cwpan am y nofiwr cyflymaf, a llongyfarchiadau gwresog i glwb Felinfach am ddod yn gyntaf gyda Chlwb Troedraur yn dod i'r 2il safle a chlwb Pontsian i'r 3ydd safle. Diolch i'r swyddogion am gynorthwyo ac i bawb a ddaeth i gefnogi.

Hoffem fel mudiad longyfarch Cadeirydd C.Ff.I. Ceredigion, sef Emyr Evans, ar ei briodas ag Elin Dafydd, cyn aelod o Glwb Troedraur ddydd Sadwrn, y 26ain o Fawrth. Dymunwn bob hapusrwydd i'r ddau gogyfer a'r dyfodol.

Hoffem longyfarch hefyd Drefnydd y Sir, sef Catrin Reynolds, wrth iddi dderbyn swydd newydd gyda Tinopolis. Diolch yn fawr iddi am ei gwaith di-flino yn y swyddfa a phob lwc gyda'i swydd newydd ac i'r dyfodol.

Clwb 200: 1. Ann Lloyd Thomas, Llwynderw Fach, Llanarth; 2. Emyr James, Penygeulan, Ffordd y Gogledd, Aberystwyth; 3. Ian Evans, Esgermaen, Heol Llanfair, Llanbedr Pont Steffan.

Digwyddiadau sydd i ddod: Mai 11 – Hyfforddiant Trin Gwlân; Mai 14 – Chwaraeon y Sir, Llambod; Mehefin 4 – Rali'r Sir yn Berthlwyd, Talybont; Mehefin 5 – Cymanfa'r Rali yn Nhalybont am 7 o'r gloch; Mehefin 17 – Rygbi 7 bob ochr; Mehefin 29 – Athletau'r Sir; Gorffennaf 29/30 – Splash '16 – Maesllyn, Tregaron.

Sir Gaerfyrddin

Bu cystadlu brwd yn ystod Diwrnod Gwaith Maes y Sir a gynhaliwyd ar fferm Penllain, Pencader, ddydd Sadwrn 9fed o Ebrill 2016. Cafwyd eira, glaw, haul a gwynt yn ystod y dydd, ond roedd pawb mewn hwyliau da.

Caryl Howells, Llangadog enillodd teitl stocmon hŷn y flwyddyn gydag Eirwyn Richards o glwb Dyffryn Cothi yn cipio'r ail wobr, Anwen Jones, Llanllwni yn y trydydd safle a Rhys Jones o Lannon yn bedwaredd. Llangadog ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth stocmon iau y flwyddyn hefyd, gydag Ifan Williams. Aled Davies o Langadog daeth yn ail, ac yna Carys Jones hefyd o Langadog ac Arwel Thomas o San Clêr yn gydradd trydydd.

St Ishmael gipiodd y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth y ffensio hŷn. Llongyfarchiadau i Callum Brown, Rhydian Walters a Harri Millin a fydd yn mynd ymlaen i Ddiwrnod Maes Cymru. Llanfynydd gipiodd yr ail wobr a Llanllwni yn drydydd. Yng nghystadleuaeth y ffensio iau, Dylan Thomas, Dyfrig Poulton a Gareth Davies o glwb Llangadog ddaeth i'r brig. Llanarthne oedd yn ail, gyda Llanllwni yn drydydd a Llanfynydd yn bedwerydd.

Dylan Thomas a Katie Sauro o glwb Llanelli fydd yn mynd ymlaen i gystadlu yn gystadleuaeth y Fferm Ffactor yn Niwrnod Maes Cymru ar ôl iddynt ddod i'r brig ar lefel y sir. Llanfynydd aeth â'r ail wobr gyda thîm arall o Lanfynydd yn trydydd. Llanllwni enillodd y gystadleuaeth ATV eleni, gyda'r brodyr Aled ac Arwel Jones. Tîm y sir ddaeth yn ail a Llanfynydd yn drydydd.

Mared Evans, Carwyn Jones a Llew Pryce o Benybont enillodd gystadleuaeth y Sioe Radio, gyda Dyffryn Cothi yn ail, Llanddarog yn drydydd a Llangadog yn bedwerydd. Pob lwc i'r tri o Benybont a fydd yn mynd ymlaen i gynrychioli'r sir. Cafwyd llawer iawn o hwyl yn ystod chystadleuaeth y ffug ocsiwn, cyn i Dafydd Evans a Tomos Griffiths, St Ishmael ddod i'r brig. Da iawn iddynt ac hefyd i Langadog am ddod yn ail, a thîm arall hefyd o Langadog yn cipio'r trydydd safle. Pob lwc i Rhys Owens, Rhodri Lloyd, Ieuan Evans a James Davies o glwb San Clêr a fydd yn mynd i fyny i gynrychioli'r sir yng nghystadleuaeth effeithlonrwydd a diogelwch.

Bydd y sawl a ddaeth i'r brig yn ystod y dydd yn mynd ymlaen i gynrychioli'r sir yn Niwrnod Maes Cymru ar Ebrill, 23. Pob lwc iddynt i gyd.

Bu llwyddiant anferthol i ffederasiwn Sir Gâr yn Niwrnod Gwaith Maes Cymru, ddydd Sadwrn 23ain o Ebrill. Diolch i'r holl aelodau aeth fyny i gynrychioli'r sir, ac hefyd i'r hyfforddwy'r a'r cefnogwyr i gyd. Dyma'r canlyniadau: Stocmon hŷn y flwyddyn: Anwen Jones, Llanllwni = 2ail; Tîm stocman hŷn y flwyddyn: 1af (Caryl Howells, Eirwyn Richards, Anwen Jones a Rhys Jones); Stocmon iau y flwyddyn: Aled Davies, Llangadog = 1af; Tîm stocman y flwyddyn: 1af (Aled Davies, Ifan Williams, Carys Jones, Arwel Thomas); Ocsiwn Ffug: 1af (Tomos Griffiths a Dafydd Evans); ATV: 5ed (Aled Jones a Arwel Jones); Sioe radio byw: 4ydd (Mared Evans, Carwyn Jones, a Llew Pryce); Ffensio hŷn: 8fed (Callum Brown, Rhydian Walters a Harri Millin); Ffensio iau: 2ail (Dylan Thomas, Dyfrig Poulton a Gareth Davies); Fferm Ffactor iau: 8fed (Dylan Thomas a Katie Sauro); Effeithlonrwydd a diogelwch: 7fed (Rhys Owens, Rhodri Lloyd, Ieuan Evans a James Davies).

Ydych chi eisiau datblygu diddordebau neu sgiliau newydd, gweithio tuag at gymhwyster neu wella eich sgiliau ar gyfer y gweithle?

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys; cyfrifiadura, hel achau, mathemateg, ysgrifennu creadigol, cadw'n heini, gosod blodau, coginio/pobi a llawer mwy. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:



01970 633540
admin@dysgubro.org.uk
www.dysgubro.org.uk



Richard Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Partner Rheoli Cyfoeth

01239 613746

07816 923618

Ffordd newydd i reoli eich cyfoeth.

Cynllunio Cylludol | Cynilo a Buddsoddi | Yswiriant a Diogelu | Yswiriant Cartref
Cynllunio ar gyfer Ymddeol | Taliadau Treth | Yswiriant Bywyd | Rheoli Ystad | Morgeisi

Am gyngor ariannol annibynol

Dros bum mlynedd ar hugain o brofiad

Siambre Pendre, 20 Pendre, Abertiefi, Ceredigion. SA43 1JT

07816 923618 ☎ 01239 613746

richardjarman@tpllp.com www.richardjarman.tpllp.co.uk

Llanwnnen



Plant a staff Ysgol Llanwnnen ar ymweliad â safle adeiladu Ysgol Dyffryn Cledlyn.

Ysgol Llanwnnen

Bu mis Chwefror a Mawrth yn fisoedd yr Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth, a daeth llwyddiant i'r ysgol wrth i ni gipio gwobrau yn y ddau. Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu.

Eisteddfod Gylch - Catrin Davies, Unawd Bl. 2 ac iau 2ail; Ymgom 2ail; Parti Unsain 2ail; Eisteddfod Ddawns; Dawnsio Gwerin Bl4 ac iau 2ail; Dawnsio Gwerin Bl6 ac iau i ysgolion tan 100 o blant 2ail

Diolch yn fawr i Mrs Elonwy Davies am gyfeilio i ni ac i gyn-ddisgybl o'r ysgol, Catrin Rosser, am gynorthwyo gyda'r dawnsio disgo.

Hefyd estynnwn ein dymuniadau gorau i Barti Unsain Ysgol Cwrtnewydd fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Fflint ar ôl iddynt gipio'r wobr gyntaf yn yr eisteddfod rhanbarth.

Ganol mis Mawrth bu nifer o ddisgyblion blwyddyn 3, 4, 5 a 6 yn cynrychioli'r ysgol mewn gwyl hoci. Ar ddiwedd y dydd daeth tîm yr ysgol yn gydradd gyntaf ac felly roedd cyfle iddynt gynrychioli'r ysgol yn y rownd siriol. Aeth yr wyth disgybl i Lamberd i gystadlu yn erbyn pump o dimoedd eraill a mwynhau y profiad yn fawr. Llongyfarchiadau i dîm Llanwenog am gipio'r wobr gyntaf.

Bu nifer o ddisgyblion yr adran iau yn Lamberd yn cystadlu yng nghystadlaethau Traws Gwlad Cylch yr Urdd yn ddiweddar. Rhedodd pawb yn wych a braf oedd gweld nifer o blant yn gorffen yn y deg uchaf sef: Blwyddyn 3 – Steffan Jarman, Lucas Smith, Swyn Tomos a Nia Williams. Blwyddyn 4 – Meredydd Davies a Cadi Evans. Blwyddyn 5 – Rhys Williams, Gruff Tomos a Beca Jones. Blwyddyn 6 – Lilly Smith. Bydd y rhain yn awr yn cynrychioli'r ysgol yng nghystadlaethau Traws Gwlad Rhanbarth yr Urdd ddiwedd y mis.

Yn ddiweddar bu disgyblion blwyddyn 4 a 5 yn Aberaeron mewn gwyl rygbi cyffwrdd. Roedd yn gyfle gwych i gael profiad o chwarae yn erbyn nifer fawr o ysgolion

Ceredigion. Diolch i'r Urdd am drefnu.

Roedd mis Mawrth yn fis i ddathlu nifer o wahanol bethau ac fe gafwyd cyfle i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda chinio blasus o gawl a phice ar y maen, diolch i Shan Cook am baratoi y bwyd. Roedd y disgyblion yn edrych yn hyfryd yn eu dillad traddodiadol Cymreig.

Dathlwyd hefyd Ddiwrnod y Llyfr gyda'r disgyblion yn derbyn rhodd o lyfr yr un gan yr Ysgol. Mwynhaodd pawb y diwrnod arbennig.

Erbyn hyn mae disgyblion blwyddyn 6 yn dod tua therfyn eu hamser yn yr ysgol ac maent bellach wedi dechrau treulio ambell gyfnod yn Ysgol Bro Pedr yn blasu yr hyn fydd yn eu disgwyl ym mis Medi, gan gynnwys cyfnod yn yr adran Ddylunio a Thechnoleg yn defnyddio'r adnoddau gwych sydd ar gael yno.

Bu'r Gymdeithas Rien i ac Athrawon ar daith gerdded ar brynhawn Gwener 15fed Ebrill. Roedd hi'n noson sych o ran tywydd ac roedd nifer fawr o gyfeillion yr ysgol wedi ymuno â'r daith o Ysgol Llanwnnen o gwmpas Neuadd. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Gan fod disgyblion y Cyfnod Sylfaen wedi gweithio mor ddiwyd yn ystod y tymor wrth astudio ein thema Straeon Tylwyth Teg, trefnwyd diwrnod o weithgareddau hwylus a pharti bach ar eu cyfer ar ddiwedd y tymor. Roedd eu gwisgoedd ffansi lliwgar yn werth eu gweld ac roeddent wrth eu boddau yn cael gwneud helpa wyau Pasg.

Bu plant a staff yr ysgol ar ymweliad â safle adeiladu Ysgol Dyffryn Cledlyn yn ddiweddar. Roedd cyfle gyda ni i gerdded o amgylch yr adeilad newydd a gweld faint o ddatblygiadau sydd wedi bod ar y safle. Roedd staff cwmni Andrew Scott, y cwmni sydd yn gyfrifol am adeiladu yr ysgol, wedi ein tywys o amgylch ac yn dangos i ni y gwahanol ystafelloedd o fewn yr adeilad. Roedd y plant yn gyffrous iawn ac wedi rhyfeddu gyda maint yr adeilad newydd. Bydd cyfle arall cyn diwedd

y tymor i ail ymweld â'r safle. Diolch i staff Andrew Scott am y croeso ac am ein tywys ni o amgylch.

Colled

Bu Nick Harrington, School House farw yn ystod yr wythnosau diwethaf. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'i briod Yvonne yn ei cholled.

Gwesty'r Grannell

Hyfryd yw nodi fod perchnogion newydd i Westy'r Grannell – llawenhawn o weld y drws ar agor unwaith yn rhagor a hynny yn fuan.

Dymunir ymddeoliad hapus i Siriol a Sue Evans yn dilyn blynyddoedd o redeg Gwesty'r Grannell a joiwch bob munud yn eich cartref newydd.

Diolch

Dymuna Dilwyn Davies, Alwyn ddiolch yn gynnes iawn am y llu o gardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd arbennig ar Ebrill 9fed.

Anrhydedd

Llongyfarchiadau i Iwan Jones, ŵyr John ac Avril Jones, Troed-y-bryn ar gael ei ethol yn Brif Fachgen Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Caerdydd. Pob dymuniad da i ti Iwan am y flwyddyn nesaf.

Cwmsychpant

Siarad Cyhoeddus Cymru

Llongyfarchiadau mawr i Beca Jenkins, Hafan y Cwm yn dilyn ei llwyddiant fel rhan o dîm CFFI Pontsian ar lefel Cymru yn Llanellwedd yn ystod y mis. Daeth y tîm yn 1af ac ymhyfrydwn yn dy lwyddiant.

Cydymdeimlo

Yn ystod y mis collodd Mrs Megan Jones, Rhandir a Mrs Mary Jones, Penrheol eu cefnder ym mherson Donald Davies, Coedlannau yn sydyn iawn. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â chwi i gyd yn eich profedigaeth annisgwyl.

Gymanfa Ganu

Eleni capel Ciliau Aeron oedd lleoliad y Gymanfa Ganu ac fe fu sawl un o Gapel y Cwm yno yn joio'r canu. Hafwen Davies, Fronheulog bu'n cyflwyno'r emyn ar ran Capel y Cwm, ac fe wnaeth hynny gyda graen. Diolch i ti Hafwen.

Os hoffech gynorthwyo'r gwirfoddolwyr gyda'r gwaith o gynhyrchu'r papur hwn, croeso i chi gysylltu ag un o'r bwrdd busnes.

TEIARS
HUW
LEWIS
TYRES

HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llangybydder,
Ceredigion.
SA40 9XG

Darparu gathau a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

Mwnci ffwnci

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.
Sioned Green
a Mared Jones
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llamberd
01570 423135
07811917799 /
07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

Gwasanaethau Coed
Teifi
Tree Services

Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfynbris am ddim
Coed tân ar werth
Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion
Glanrwyth, Pumsaint,
Ffôn: 01558 650209 a 650451,
Ffacs: 01558 650440

Masnachwyr coed
a nwyddau adeiladu
a ffensiō o bob math
Glo caled a glo meddal
o'r ansawdd gorau



Teifi 10

Cynhaliwyd ras flynyddol y Teifi 10 ar Sul y Pasg mewn amodau braf er yn wyntog iawn, ac am y drydedd blwyddyn yn olynol dychwelodd Martin Rees o glwb Les Croupiers, Caerdydd i geisio torri record y byd ar gyfer dyn 63 oed mewn ras 10 milltir, ac fe lwyddodd yn gyfforddus, 6 munud yn gynt na'r amser blaenorol! Martin hefyd orffennodd yn ail yn y ras ac yn gyntaf yng nghategori y dynion 50, gyda'r ail yn yr un categori yn mynd i Royston Whitehouse hefyd o Les Croupiers mewn 61.25 a'r 3ydd i Alan Davies, Llanelli AC mewn 61.36. Enillydd y ras eleni oedd Steven Rees o Neath Harriers o gategori'r dynion agored mewn 55.20, gyda'r brwydro'n parhau rhwng aelodau'r clwb Sion Price a Dylan Lewis am yr ail safle yn yr un categori. Ar ôl cyd-rhedeg am y ras gyfan Sion gipiodd yr ail safle mewn amser arbennig o 58.19 gyda Dylan yn dynn ar ei gynffon mewn 58.24. Yn cipio'r wobwr gyntaf yng nghategori y dynion dros 40, oedd Ironman Sarn Helen, Gareth Payne mewn 58.38, gyda'r ail wobwr yn mynd i Chris Fulcher o Neath Harriers, 62.07 a'r 3ydd i Keith Richards, Aberystwyth AC mewn 63.31. Yn ras y merched, fe wnaeth Claire Cleathero arwain y ffordd o'r dechrau gan orffen mewn amser arbennig o 69.44, gan gipio'r cyntaf yng nghategori y merched dros 35 hefyd, gyda Heather Hughes, Sarn Helen yn ail yn yr un categori gyda'i amser gorau o 83.01 a'r 3ydd yn mynd i Rebecca Johnson mewn 85.43. Dee Jolly, Sarn Helen orffennodd yn gyntaf yng nghategori y merched agored mewn 73.38, gyda'r 2il safle yn mynd i Donna Morris, Brecon Tri mewn 74.25 a'r 3ydd i Kate McDermott, Sarn Helen mewn 78.16. Aeth y wobwr gyntaf yng nghategori y merched dros 45 i Catherine Bleasdale, Trots mewn 76.29, gyda'r arian yn mynd i Helen Willoughby, Sarn Helen 77.13, a'r 3ydd hefyd o Sarn Helen, Dawn Kenwright mewn 79.29. Cafwyd canlyniadau arbennig gan aelodau eraill o'r clwb oedd fel a ganlyn, Caryl Wyn Davies 79.17, Donna Davies 85.52, Carys Davies 89.00, Jenny Caulkett 93.22, Emma Gray 118.19, a'r dynion, Tim Jones 62.03, Simon Hall 63.30, Glyn Price 65.39, Carwyn Davies 65.42, Kevin Hughes 66.07, Andrew Davies 66.34, Richard Marks 68.04, Andrew Abbott 68.50, Kevin Regan 68.59, Michael Davies 69.24, Nigel Davies 70.07, Tony Hall 70.25, Carwyn Thomas 70.45, David Thomas 72.23, Murray Kisbee 73.01 a Terry Wyn Jones 81.11.

Marathon Llundain (lluniau lliw ar dudalen 25).

Os ydych chi'n rhedeg, mae pawb yn dueddol o ofyn os ydych chi wedi rhedeg marathon Llundain! Er bod cannoedd o farathonau eraill ar y calendr yn cynnwys Marathon Eryri, sef un o ffefrynau aelodau Sarn Helen, mae marathon Llundain yn un eiconig sydd yn cael lot o sylw ar y cyfryngau ac mae'r awyrgylch yno yn drydanol wrth i'r rhedwyr basio tirnodau hanesyddol a hynny yn swm miloedd o gefnogwyr. Nid yw hi'n rhwydd i gael lle yn y ras hon, ond fe lwyddodd 6 o'r clwb; rhai wedi ennill eu lle drwy dderbyn amser cyflym mewn marathon blaenorol, un yn rhedeg i elusen ac un wedi cael lle drwy'r clwb. Cafodd y chwech ras arbennig o dda, tri ohonynt yn gorffen o dan y 3 awr, a thri yn cael eu hamseroedd gorau. Roedd Terry Wyn Jones yn rhedeg y ras hon am y pedwerydd tro ac roedd yn rhedeg i elusen y frigâd dân am yr eildro yng nghwmni rhai o'i gydweithwyr; gorffennodd mewn 3.38.07, 4 munud yn gynt na'i amser cyflymaf. Rhedodd Caryl Wyn Davies y marathon hon gyntaf nôl yn 2009 ac eleni roedd hi'n dychwelyd i redeg y ras am yr eildro, ac fe lwyddodd i orffen mewn amser o 3.39.02, 18 munud yn gynt na'i hamser cyflymaf mewn marathon. Nid oedd rhedeg 26.2 milltir yn swnio fel llawer i Nigel Davies am ei fod yn gyfarwydd â rhedeg pellteroedd o 100 milltir, ac er iddo gael amser da o 3.22.10 nid oedd Nigel yn hapus iawn gyda'r amser hyn ond efallai bod ei goesau yn gwybod ei fod yn gorfod rhedeg ras 52 milltir mewn pythefnos ym mynyddoedd Malvern! Y tri i guro'r tair awr oedd Kenneth Caulkett, Tim Jones a Carwyn Davies; Ken yn gorffen mewn 2.49.16, 6 munud yn gynt na'i amser cyflymaf pan gafodd 2.55 yn marathon Dinbych-y-Pysgod, Tim mewn 2.53.11 a Carwyn 2.58.50. Llongyfarchiadau i bawb!

Canlyniadau Eraill

Roedd dydd Sul, Mawrth yr 20fed yn ddiwrnod prysur iawn yng nghalendr Sarn Helen gyda nifer o rاس ar draw y wlad. Yn agos i adre, cynhaliwyd Duathlon Tregaron a oedd yn cael ei drefnu gan Campau Caron. Enillwyr y ras oedd Sion Price a'i bartner Gareth Hodgson, gyda Sion yn ennill y ddwy ras rhedeg a Gareth yn gorffen y ras feicio 14 milltir yn gryf iawn gan sicrhau buddugoliaeth i'r tîm. Kevin Hughes oedd unig aelod o'r clwb i gystadlu fel unigolyn, ac fe enillodd e'r ras i rai dros 40 mewn amser o 81.25. I lawr yr M4 yn y Barri, gwelwyd Nigel Davies ym ymddangos ar y trac yn stadiwm Jenner Park am yr ail flwyddyn yn olynol yn barod i redeg 40 milltir, sy'n gyfystyr â bron i 161 lap o amgylch y trac 400 metr. Fe orffennodd y ras 8 munud yn gynt na'i amser llynedd mewn 5 awr 10 munud, ac fe enillodd y fedal aur yn ei gategori oedran ym

mhencampwriaeth Cymru. Tua 30 milltir i'r gogledd ym Merthyr Tudful, cynhaliwyd ras 20 milltir gan glwb San Domenico, ac yno yn cynrychioli Sarn Helen oedd David Thomas a Ken Caulkett. Ymysg y 226 o redwyr, rhedodd Ken ras arbennig o dda gan orffen yn y pedwerydd safle, ac yn ail i ddynion rhwng 35-44 mewn 2.07.05, gyda David Thomas hefyd yn gorffen yn gryf mewn 2.41.38.

Ddydd Sadwrn 26ain o Fawrth, croesawyd Pencampwriaeth Hanner Marathon y Byd i Gaerdydd. Roedd y ddinas dan ei sang er gwaetha'r tywydd garw, ac ymhlith y rhedwyr roedd 7 o aelodau Sarn Helen. Yn cynrychioli'r merched oedd Caryl Wyn Davies ac Eleri Rivers gyda'r ddwy yn rhoi perfformiadau arbennig. Gorffennodd Caryl mewn 1.37.45 ac Eleri yn cael ei hamser gorau o 1.39.18 er gwaethaf ei salwch yr wythnos flaenorol. Cafwyd amseroedd da gan y dynion hefyd gyda Llewelyn Lloyd 1.23.38, David Thomas 1.35.50, George Eadon 1.44.38, Mitchell Readwin 1.45.55 ac Aneurin James 1.50.04. Un o rاس cyntaf mis Ebrill oedd y ras 5, 10 ac 20 milltir yn Llanelli ar Ebrill y 3ydd, a pha ffordd well i Terry Wyn Jones a Carwyn Davies i ymarfer ar gyfer Marathon Llundain ond rhedeg y ras 20 milltir. Gorffennodd Carwyn y ras yn y deuddegfed safle mewn 2.16.54 gyda Terry yn croesi'r llinell derfyn mewn 2.42.53. Ymhellach i'r gorllewin ar yr un diwrnod, cynhaliwyd Duathlon yng Nghrymych a oedd yn cynnwys rhedeg 10km, beicio 40km a rhedeg 5km i orffen, sy'n dipyn o gamp ond fe wnaeth Gareth Payne y cyfan i edrych mor rhwydd er iddo gyfaddef fod y 5km olaf yn lladdfa. Gorffennodd yn yr ail safle llynedd, ond eleni fe gipiodd y wobwr gyntaf mewn amser arbennig o 2.25.14 ac mae David Thomas yn dod yn wyneb cyfarwydd yng nghystadlaethau'r Duathlon eleni wrth iddo baratoi ar gyfer cystadleuaeth fawr yr Ironman ym mis Medi, ac fe orffennodd e'r ras mewn 2.57.47. Teithiodd Dawn Kenwright i ogledd Cymru ar Ebrill y 10fed i gymryd rhan mewn ras lwybr 20km ym mhentref Corwen. Llwyddodd i gipio'r wobwr aur i fenywod dros 60 mewn amser o 2.09.33. Ar draws y ffin ym Manceinion ar yr un diwrnod, roedd George Eadon yn rhedeg marathon yn y ddinas, ac mae'r farathon hon yn cael ei hadnabod fel yr un fwyaf gwastad, cyflymaf, a'r un fwyaf cyfeillgar ym Mhrydain. Roedd hi'n fore braf wrth i'r 9,500 o redwyr orchuddio'r strydoedd ac er i George ddioddef o anaf yn arwain i fyny at y ras, llwyddodd i gael amser arbennig o 3.30.47. Yn y gerddi botaneg yn Llanarthne ar Ebrill 17eg, cynhaliwyd ras 10k a 5k er mwyn codi arian i Tenovus. Er bod y llwybrau yn heriol, roedd y golygfeydd yn odidog ac fe lwyddodd un o aelodau iau y clwb Sean Wood redeg y 5k gan orffen yn y 12fed safle, gyda dwy o fenywod Sarn Helen yn llwyddiannus yn y 10k wrth i Helen Willoughby orffen yn 3ydd merch mewn 48.07 a Dawn Kenwright yn dynn ar ei chynffon yn y 4ydd safle mewn 48.13 ond yn cipio'r wobwr gyntaf i fenywod dros 45.

Tra bod y marathon yn cymryd lle yn Llundain, roedd tri o'n haelodau wedi teithio i Fynwy i gystadlu mewn ras lwybrau heriol o'r enw Offa's Error a oedd yn 20k o bellter.



Roedd 231 o redwyr yn y ras ac fe wnaeth Eleri Rivers yn arbennig i orffen yn 14eg safle yn ras y merched ac yn 9fed yng nghategori'r menywod dros 40 mewn amser o 1.53.01. Gorffennodd Aneurin James yn gryf mewn 1.58.24 ac yna Helen Willoughby yn cipio'r 3ydd safle i fenywod dros 50 mewn amser o 2.02.05.

Ras ola'r dydd ar Sul y 24ain o Ebrill oedd Ras Crannog, ym mhentref hyfryd Llangrannog, gyda'r ras yn dechrau a gorffen yng Ngwersyll yr Urdd. Dechreuodd y prynhawn gyda rاس y plant a nifer fawr o Sarn Helen a phlant yr aelodau wedi cymryd rhan. Yn y ras 1k i flynyddoedd 3-4, fe orffennodd Nia Williams mewn 5.46; 1.5k oedd y ras i flynyddoedd 5-6 gyda brawd Nia, Rhys Williams yn fuddugol mewn 5.28 ac Owen Davies yn



gorffen mewn 6.48 a Sean Wood 7.42. Yn ras y merched, roedd Faye Jones yn fuddugol mewn 6.01 gyda Beca Jones yn gorffen mewn 7.11.



Yn arwain y ffordd i fl 7-8 ar gwrs o 3.5k oedd Gwion Payne mewn 14.28. Dechreuodd ras yr oedolion am 4 o'r gloch yn heulwen y prynhawn gyda 6 o aelodau'r clwb yn barod ar gyfer y 10k heriol oedd o'u blaenau. Roedd y cwrs yn cynnwys golygfeydd godidog gyda'r rhan olaf ar hyd llwybr yr arfordir, ond roedd sawl dringfa serth a llwybrau anwastad yn ei gwneud hi'n anodd i'r rhedwyr.



Y rhedwr cyntaf i gyrraedd nôl i'r gwersyll oedd Gareth Payne, Sarn Helen a wibiodd ei ffordd o amgylch y cwrs gan orffen mewn 37.19 a gwên fawr ar ei wyneb, heb yn syndod gan iddo dorri record y cwrs. Simon Hall oedd yr ail i orffen mewn 40.37, a'r tad Tony Hall yn gorffen yn 7fed ond yn gyntaf yng nghategori y "veterans" mewn 45.21. Y ferch gyntaf i groesi'r llinell derfyn oedd Sian Roberts-Jones a hithau hefyd yn torri record y cwrs i'r merched mewn 49.27. Cafodd Mitchell Readwin ras dda gan orffen 4 munud yn gynt na'i amser llynedd mewn 49.42 a Helen Davies yn gorffen mewn 58.06.

Clwb beicio

Ar ddydd Llun y Pasg, fe wnaeth clwb beicio Sarn Helen gynnal eu "Time Trial" agored cyntaf gan ddechrau ym mhentref Talsarn gan wneud eu ffordd i fyny dringfa serth Tychrug. Gwelwyd 16 o feicwyr yn rhoi cynnig ar y ddringfa o 1000 o droedfeddi uwchben lefel y môr. Y beicwyr cyflymaf oedd Gareth Payne a orffennodd mewn 11.25 gyda Dylan Lewis yn ail iddo mewn 12.14, a'r ddau wedi rhedeg y Teifi 10 y diwrnod blaenorol! Aelodau eraill o'r clwb i gymryd rhan oedd Huw Jones 13.11, John McDonagh 14.52, Dorian Rees 15.07, Richard Marks 16.58, David Thomas 17.23, Eric Rees 17.35 a Paul Edwards 18.46. Diolch yn arbennig i Dalton's ATV am ddefnyddio'r iard ar gyfer cofrestru a'r canlyniadau ac i deulu Tanrhos, Cwrtnwydd am ddarparu'r lluniaueth.



Ar Nos Sadwrn 2il Ebrill cafwyd noson o gomedi Cymraeg yn Lolfa Theatr Felinfach yng nghwmni Steffan Alun, Phil Cooper a Phil Evans. Rydym yn falch i weld y dilyniant i'n nosweithiau comedi Cymraeg yn cynyddu a chafwyd lot fawr o chwerthin a hiwmor. Braf oedd gweld Phil Evans yn adrodd yn ei 'flog' wythnosol mai uchafbwynt ei wythnos oedd perfformio yn Theatr Felinfach. Mae unrhyw adborth yn werthfawr, boed yn dda neu'n ddrwg, ond pan gewch ganmoliaeth fel hyn, mae'n gwneud popeth yn werth yr ymdrech.

Cafwyd gwledd o gerddoriaeth a chanu ar Nos Sadwrn, 16eg Ebrill yng nghwmni Trio, grŵp lleisiol o ddynion o ogledd Cymru, sef Emyr Wyn Gibson, Bedwyr Gwyn Parri a Steffan Lloyd Owen a'r ddeuawd offerynnol, PIANTEL, sef yr amryddawn Annette Bryn Parri a'r telynor Dylan Cernyw. Roedd y rhaglen yn amrywiol a chyfoes a'r gynulleidfa wedi dotio arnynt i gyd. Bydd rhaid eu gwahodd yn ôl yn fuan eto.

Ar ddiwedd mis Ebrill, rhaid oedd ffarwelio â Catherine Young, ein Swyddog Dawns, gan ei bod wedi derbyn swydd fel Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Artistig Dawns i Bawb, cwmni sydd wedi ei leoli yng Nghaernarfon. Mae Catherine wedi gweithio ar Gampws Felinfach ers 17 o flynyddoedd. Daeth yma yn syth o'r coleg swydd gyda Dawns Dyfed a phan ddaeth Dawns Dyfed i ben trosglwyddwyd gwaith Catherine fel Swyddog Dawns yn y Gymuned gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru i Theatr Felinfach. Mae'n ddiwedd cyfnod, ac ar un llaw roedd yn drist i ffarwelio â hi, ond rydym yn hynod o falch dros Catherine ar ei phenodiad ac yn sicr y bydd hi'n gaffaeliad mawr i fyd y ddawns yng ngogledd Cymru. Mawr hyderwn y bydd cyfle i ni fedru cydweithio rhywbryd yn y dyfodol. Pob lwc i ti Catherine a diolch enfawr i ti am dy gyfraniad i fyd y ddawns yng Ngheredigion.

Yn dilyn gwyliau'r Pasg, pleser oedd cael cwmni'r Parchedig Howell Mudd, cyn weinidog capel Seion, Cilcennin. Erbyn hyn mae'n weinidog yn ardal Rhydaman. Cafwyd prynhawn pleserus yn gwranddo arno'n adrodd hen hanesion.

Y dydd Mercher canlynol, bu Aled Rees yn rhoi hanes ei fusnes, Teithiau Tango, sy'n arbenigo mewn trefnu teithiau i Batagonia. Cafwyd hefyd ychydig o hanes busnes arall mae Aled yn berchen arni ynghyd â menter fwy diweddar mae'n gyd bartner ohono, sef Teithiau Cambria a Siop y Pethe yn Aberystwyth. Cafwyd prynhawn difyr iawn yn ei gwmni.

Beth Sy' 'Mlaen yn y Theatr? 6/5/16 - Noson gan Gyfeillion y Theatr i ddathlu Wythnos Celfyddydau Gwirfoddol 2016. 7/05/16 - Ysgol Theatr Maldwyn yn cyflwyno drama gerdd MELA gan Linda Gittins, Derec Williams a Penri Roberts. 12/5/16 - Cwmni Theatr Bara Caws yn cyflwyno sioe un dyn 'Allan o Diwn'. Hanes Emyr 'Himyr's Roberts - o fod yn ddisgybl 6ed dosbarth at sefydlu un o grwpiau eiconig yr 80au, Y Ficar. 24,25,26/6/16 - Gŵyl TOSTA - Cyfle unigryw i ddathlu ieithoedd a diwylliant saith o wledydd Celtaidd ac Ewropeaidd: Gwlad y Basg, Galisia, Fryslân, Yr Alban, Iwerddon, Cernyw a Chymru.

Gohebiaeth



CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN
LAMPETER TOWN COUNCIL

38 Penbryn, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 7EU
01570 421496 clerc@lampeter-tc.gov.uk

12fed Ebrill 2016

Annwyl Olygydd

Ynglŷn â: Cais yn gwahodd Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2020 Ceredigion i ardal Llanbedr Pont Steffan.

Cysylltaf ar ran Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan a'n cais i lwyfannu Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2020 Ceredigion yn ardal Llanbedr Pont Steffan, yn holi'n garedig i gael cyhoeddi'r llythyr hwn yn datgan ein diolch i bawb wnaeth gyfrannu at lunio'r cais. Diolchwn i'r holl unigolion, y cymdeithasau, mudiadau a'r busnesau am eu cefnogaeth; i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, ac yn arbennig i'r Athro Medwin Hughes a Mr Hywel Griffiths, am eu cymorth hael; ac i aelodau'r Is-Bwyllgor, yn arbennig Rhiannon Lewis (Cadeirydd) a Rhys Bebb Jones (Ysgrifennydd), am eu gwaith trylwyr. Diolchwn hefyd wrth gwrs am gefnogaeth perchnogion y tiroedd all gynnig safle yn ardal Llanbedr Pont Steffan i lwyfannu'r Eisteddfod Genedlaethol ac i'w chroesawu yn ôl i Geredigion yn 2020.

Yr eiddoch yn gywir

Y Cyngorydd Christopher Thomas Maer Tref Llanbedr Pont Steffan



Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW
21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556
Carys Davies: 07890 883346
Gwion James: 07980 608337

www.fuwinsurance.co.uk

Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y
"Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.



CELFY CEGIN A 'STAFELL
WELY, ATELOGION CEGIN
WEDI EU FFITIO,
TEILS WAL A LLAWR

DOLGADER,
SGWAR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER
01570 480257

COMPASS
OFFICE
SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa



Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llanbed, Heol Tregaron,
Llanbed.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

**19 Stryd Fawr,
Llanbed**

Oriau Agor:
Mawrth - Sadwrn 12yp - 9yh
Sul - Llun - Ar Gau

CANOLFAN ADDURNO
AA
A

Dewis arbenig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerus, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Ysgol Bro Pedr



Sector Iau

Llongyfarchiadau mawr i Ifan Meredith, Lowri Meles James Evans, Fflur Meredith a Hanna Meles James Evans ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Sir Gelf yr Urdd. Cafodd Ifan Meredith ddwy wobr gyntaf am wehyddu a gwaith dylunio a thechnoleg, ail am greu arteffact a thrydydd am emwaith. Cipiodd Fflur Meredith ddwy wobr gyntaf am waith gwehyddu a dylunio a thechnoleg, ail am emwaith a thrydydd am waith tecstilau creadigol. Cafodd Lowri Meles James Evans ddwy wobr gyntaf am ffotograffiaeth – cyfres o brintiau lliw a chyfres o brintiau monocrom a Lowri a'i chwaer Hanna yn cipio'r wobr gyntaf am greu pypedau. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd.

Daeth ymwelwyr o Ffrainc i ymweld â ni yn yr ysgol a braf oedd cael cymharu diwylliant a thraddodiadau'r ddwy wlad. Bu tîm o ferched a bechgyn o'r ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth bêl-droed yr Urdd yn ddiweddar a gwneud yn arbennig o dda. Bu'r merched bron â mynd i'r rownd gyndderfynol a'r bechgyn wedi ennill tair o'u gemau. Diolch i Mr M Davies a Miss N Davies am hyfforddi a threfnu. Bu'r disgyblion yn brysur ddydd Gwener Ebrill 22 yn gwneud gweithgareddau yn yr ardd wyllt ac yn plannu hadau gan ei bod yn Ddiwrnod y Ddaear. Diolch i bawb a fu'n cynorthwyo i drefnu ac a fu'n brysur yn palu.

Sector Hŷn

Yn ystod ein sesiynau ABCh cyn y Nadolig, bu disgyblion blwyddyn 7 yn dysgu am Ganolfan y Bont tra bu disgyblion blwyddyn 8 ac 11 yn creu bathodynau daffodil. Yna bu'r disgyblion yn brysur yn gwerthu'r bathodynau dros y misoedd diwethaf ac maent wedi llwyddo i godi £530 tuag at Ganolfan y Bont. Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n helpu i wneud bathodyn neu a brynodd un.

Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu yn y cystadlaethau 'show jumping' Ysgol Genedlaethol BSJA ddod. Enillodd Bro Pedr ail a thrydydd yn eu cystadlaethau tîm gan gasglu digon o bwytiau i symud ymlaen i'r rownd nesaf. Dyma'r disgyblion oedd yn cystadlu: Kirstin Evans, Amy Richards, Jodie Humphreys a Harriet Davies.

Llongyfarchiadau enfawr i bawb a wnaeth gystadlu yn nhwramaint pêl-droed gorllewin Cymru ar yr 21ain o Ebrill. Daeth merched blwyddyn 7 ac 8 yn ail (gwelir y tîm yn y llun), daeth merched blwyddyn 9 a 10 yn bedwerydd gyda bechgyn blwyddyn 10 hefyd yn bedwerydd yn eu rownd hwythau. Da iawn chi!

Pleser oedd cael clywed y merched yn canu yng nghyngerdd



Kirstin Evans, Amy Richards, Jodie Humphreys a Harriet Davies yn y gystadleuaeth 'Show Jumping'.



Y merched a fu'n canu yng nghyngerdd Côr Ceredigion.



Sesiynau ABCh gyda disgyblion Canolfan y Bont.



Fel rhan o ddathliadau "Diwrnod y Ddaear/Earth Day" aeth dosbarth derbyn Mr Jones i gynnal helfa liwiau yn yr ardd wyllt.

Côr Ceredigion ar nos Fawrth, Ebrill 19eg. Roeddent yn rhan o gôr o tua 150 o bobol ifanc eraill o ysgolion Ceredigion. Roedd y mwynhad a'r brwdfrydedd yn eu perfformio wir yn ysbrydoledig ac yn cynnwys cymysgedd o ganeuon o'r emyn Calon Lân i One Love gan Bob Marley a chyfieithiad newydd o un o ganeuon Sam Smith. Roedd y plant wrth eu bodd a'r gynulleidfa'n sicr wedi mwynhau!

Chwaraeon: Llongyfarchiadau i'r timau a oedd yn chwarae gemau yn erbyn ymwelwyr o Ffrainc ddydd Llun, Ebrill 25ain. Dyma'r canlyniadau: Pêl-Rwyd: 13 Bro Pedr v CV 4, Pêl-Droed: 5 Bro Pedr v CV 3, 3 Bro Pedr v CV 8.

Taith Erasmus+ i Gymru

Adroddiad gan Elan Jones a Beca Jenkins, 8 Dewi.

Yn ystod yr wythnos 11-15 Ebrill teithiodd disgyblion o ysgolion y Ffindir, Cyprus a Denmarc i Gymru fach i ymuno â ni, Ysgol Bro Pedr ac Ysgol Bro Myrddin, fel rhan o'r prosiect Erasmus+ oedd yn cynnwys wythnos gyfan o weithgareddau.

Ar ddydd Mawrth y 12fed o Ebrill, cynhaliwyd taith i'r Gerddi Botaneg i baratoi cyflwyniad grŵp yn ogystal â chreu Cod Eco rhyngwladol. Cafodd bawb eu rhannu mewn i ddau grŵp, un yn cael taith o amgylch y Gerddi a chywain gwybodaeth, a'r grŵp arall yn cael amser i baratoi'r cyflwyniadau. Gwnaeth y disgyblion ddarganfod llwyth o wybodaeth o amgylch y Gerddi a chafodd yr ymwelwyr eu rhyfeddu gan brydferthwch natur Cymru.

Ar ddydd Mercher y 13eg o Ebrill, daeth yr ymwelwyr i Ysgol Bro Pedr i gymryd rhan yng ngwersi coginio, dylunio a thechnoleg a sgiliau rygbi. Bu'r ymwelwyr yn brysur iawn drwy gydol y dydd yn cael blas o fywyd Ysgol Bro Pedr. Yn ystod gwers 1, cafodd yr ymwelwyr eu tywys o amgylch yr ysgol gan ein Prif Swyddogion. Roedd amser egwyl yn gyfle i ddisgyblion Ysgol Bro Pedr gael sgwrs gyda'r gwesteion oedd yn ymweld â'u tai y noson honno. Yna, yn ystod gwers 2 cafodd yr ymwelwyr eu diddori wrth greu ffresnydd aer, pice ar y maen a chreu 'keyrings'. Ar ôl hynny, cafodd yr ymwelwyr hwyl yn dysgu sut i chwarae rygbi gyda Jack Rees a disgyblion y chweched. Efallai gwelwn lawer o'r ymwelwyr yn sêr rygbi mewn blynyddoedd i ddod. Erbyn hyn, roedd hi'n amser cinio a gwnaeth yr ymwelwyr lenwi eu boliau â bwyd blasus yr ysgol. Ar ôl cinio, cafodd yr ymwelwyr eu tywys o amgylch Llambled ac ymweld â phrif atyniadau'r dref.

Ar ddiwedd y dydd, roedd yn bryd i'r ymwelwyr gael eu croesawu gan ddisgyblion Bro Pedr i'w cartrefi am y noson tan 8:30y.h. Cawsant amser

arbennig yn cwrdd â theuluoedd o wahanol ddiwylliannau, dysgu am fywyd bob dydd eu partneriaid a chymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau megis ffermio, dawnsio a llawer mwy. Erbyn 8:30, roedd yn amser i'r ymwelwyr ddychwelyd i'r gwesty, yn barod ar gyfer y diwrnod canlynol.

Ar fore Iau fe wnaeth y disgyblion o'r gwledydd tramor ymweld â fferm wynt. Yna cawsant eu haddysg am effeithiolrwydd melinau gwynt yng Nghymru. Hefyd fe wnaethant ddysgu sut oedd melinau gwynt yn gweithio a pha ddarnau o beirianwaith oedd eisiau i fesur y trydan.

Yna ar ôl cinio, aeth pawb i reilffordd y Gwili er mwyn cael te prynhawn. Cafodd tipyn o'r ymwelwyr a staff eu rhyfeddu gan ba mor hen oedd y trenau yng nghwm Gwili, a gwnaeth llawer ei ddisgrifio fel trên Harri Potter i Hogwarts! Roedd y te prynhawn yn flasus tu hwnt.

Ar ôl dod adre roedd hi'n amser i bawb fynd draw i'r swper ffarwel a disgo ym Mhrifysgol Llambled. Gwnaeth pawb fwynhau bwyd traddodiadol Cymreig a gan fod pawb wedi blasu pice ar y maen ddydd Mercher roedd rheiny wedi diflannu mewn chwinciad, ac roedd nifer ohonynt am gael rysâit bara brith hefyd.

Ddydd Gwener y 15fed oedd uchafbwynt y prosiect yng Nghymru. Cafodd tri disgybl o Ysgol Bro Pedr a fu yn Cyprus sef Beca Jenkins, Elan Jones a Lucy Hill eu cyfsweld ar gyfer rhaglen Prynhawn Da. Teithiodd pawb i'r siambr yn Sir Gaerfyrddin er mwyn cyflwyno eu syniadau terfynol i bawb er mwyn pleidleisio am y syniadau gorau. Yna roedd y tri gorau yn cael eu defnyddio ar gyfer creu Cod Eco rhyngwladol i wledydd y partneriaeth i gyd. Ar ôl i bawb gyflwyno eu syniadau terfynol roedd gan bawb bleidlais. Y tri syniad a ddaeth yn fuddugol oedd #GoGreen, defnyddio mwy o gynnyrch lleol yn yr ysgol a lleihau gwastraff papur. Cafodd pawb brofiad anhygoel yn y siambr yn defnyddio y meicroffonau modern ac hefyd cael siarad â Chadeirydd y siambr. Dosbarthwyd bathodynau i bawb i gofio am eu profiadau yng Nghymru, ac yna derbyniodd pawb a oedd ynghlwm â'r prosiect dystysgrif. Hefyd derbyniodd ein hysgolion partner anrheg o waith Aled Dafis yn rhodd.

Hon oedd ymweliad olaf y prosiect ac fe wnaeth pawb fwynhau y prosiect yn fawr, boed wrth deithio i Ddenmarc, Cyprus, y Ffindir neu Gymru. Roedd hyn yn brofiad bythgofiadwy. Diolch yn fawr i Miss Geinor Jones, Miss Nerys Douch a Miss Hedydd Jones am gydlynw'r prosiect.



Cystadleuaeth Mathemateg Canolradd - Jack, Ryan Aoife (arian), Rhys, George, Max ac Eddie (efydd).



Max (efydd) a Megan (aur) - Her Fathemategol.



Ben a Jac y gorau yn eu blwyddyn - Her Fathemategol.



Ymwelwyr Taith Erasmus o'r Ffindir, Cyprus a Denmarc yn cael hyfforddiant rygbi. Mwy o luniau ar www.clonc360.cymru



Tîm Pêl-droed merched blwyddyn 7 ac 8 a ddaeth yn ail yn Nhwrnament Gorllewin Cymru.

Llanbedr Pont Steffan



Grŵp Dawnsio Aelwyd Llambled - 1af yng nghystadlwaueth Bl. 10 a dan 19 oed yn Eisteddfod Sir yr Urdd.

Cymdeithas Hanes

Croesawyd cynulleidfafa gref unwaith eto gan Selwyn Walters y Cadeirydd i gyfarfod mis Ebrill. Braidd nad oedd angen cyflwyno'r siaradwraig, Barbara Jones, gan mai hi yw Ysgrifenyddes weithgar y Gymdeithas a phwyllgor yr Amgueddfa. Hanes morwrol ei thad oedd testun y noson, sef Evan Watkin Jones, Church Hill, Heol y Bryn - yn fab i David a Sarah Jones, Tynlloft.

Rhoes ei fryd ar fynd i'r môr, ac wedi gadael Ysgol Coleg Llambled, ymunodd â'r llong hyfforddi, yr HMS Conwy ychydig cyn ei ben-blwydd yn 16 oed, ar gost o £68.5s y flwyddyn. Trwy gyfrwng lluniau gwelwyd sut oedd hi ar fwrdd y llong yn y cyfnod, a'r hyfforddiant a'r dyletswyddau a ddisgwyd i'r bechgyn eu cyflawni. Bu yno am ddwy flynedd, ac yna ymuno â'r llynges fasnach, am mai ar long hwyliu y dymunai fod.

Cafodd le ar long y 'Milverton', a bu raid iddo ef a'i fam arwyddo cytundeb y byddai'n aros arni am dair blynedd, a phris ei brentisiaeth yn £30, a'i gyflog yn £10 y flwyddyn. Gwelwyd ef yn croesi'r Cyhydedd am y tro cyntaf, a'r seremoni oedd yn wynebu pawb yn gwneud hyn am y tro cyntaf. Ffilm arall o'r llong yn rowndio'r Horn, y tonnau'n 80 troedfedd, a'r gwynt yn hyrddio hyd at 100 milltir yr awr.

Ymunodd wedyn â'r llynges Frenhinol yn ystod y Rhyfel Mawr, ar fwrdd yr HMS Laentic, a chlywyd am ei deithiau hwnt ac yma o gwmpas y byd. Gadawodd Evan Watkin Jones y Laentic wedi cyrraedd Lerpwl yn Rhagfyr yn 1916. Dair wythnos yn ddiweddarach, suddwyd hi gan ffrwydryn a chollwyd cannoedd o fywydau. Erbyn hyn roedd Evan Watkin ar long arall ar ddyletswydd yn Scapa Flow, yn cadw llygad am longau tanfor yr Almaenwyr - yr U-boats.

Er y cyfnod anodd yma, roedd Evan Watkin yn sefyll arholiadau morwrol, gan weithio'i ffordd i fyni yn y llynges. Cyflwynwyd dwy fedal iddo ar ddiwedd y Rhyfel, a thystysgrif gan Bwyllgor Llambled

am ei waith a'i gyfraniad yn ystod y cyfnod yma.

Wedi'r Rhyfel ddod i ben, ail ymunodd â'r llynges Fasnach gan eto deithio i bob cyfandir. Tra'r oedd ei long yn cael ei hatgyweirio yn Efrog Newydd wedi storm ddychrynlyd, trawyd ei lygad gan ddarn o rwd, ac roedd y niwed mor ddifrifol, bu'n rhaid iddo ymadael â'r llynges i chwilio am waith arall.

Priododd, a ganwyd dau o blant yn Llambled, ond penderfynu teithio eto, symudodd y teulu i'r Unol Daleithiau, lle bu ef yn gweithio fel Ceidwad Goleudy ger Llyn Michigan. Wedi pum mlynedd, dychwelsant i Lerpwl, lle bu ei wraig farw. Ail-briododd yn 1946, a symud yn ôl i Llambled, lle'r oedd ef ac Annie ei chwaer yn berchen ar y Felin lifio ger yr orsaf. Ganwyd dau blentyn o'i ail briodas, sef Glyn a Barbara.

Diolchwyd yn gynnes i Barbara am yr hanes diddorol a thrylwyr o fywyd ei thad, a'r hanes hwnnw yn gysylltiedig â thre Llambled. Cafwyd cyfle i edrych ar lu o ddogfennau a lluniau yn berthnasol i'r hanes ar ddiwedd y noson.

Bydd darlith olaf y tymor nos Fawrth, Mai 17eg am 7.30yh yn Hen Neuadd y Brifysgol, pan fydd Lestor Mason, darlithydd yn y Brifysgol yn siarad am Llambled yn cofio cyfnod y Rhyfel Mawr. Bydd y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ar yr un noson.

Amgueddfa Llambled

Bydd yna gyfle arall i chi ddod ag eitemau i'w prisio am ddim gan arbenigwr o gwmni Peter Francis, Caerfyrddin ddydd Iau, Mai 19eg, rhwng 10 y bore a 3 o'r gloch y prynhawn yn yr Amgueddfa. Bydd y gwirfoddolwyr yn falch i'ch croesawu yno.

Gefeillio

Croesawyd 27 o ymwelwyr o eifilldref Llambled i'r ardal dros y penwythnos a bu'r pwyllgor bach, disgyblion Ysgol Bro Pedr a theuluoedd yn eu diddanu.

Tref yn rhanbarth Maine-et-



Fel arwydd o ddiolch am y gwasanaeth arbennig a gynigwyd gan staff adran Gofal Lliniarol Ceredigion, Ysbyty Bronglais, casglwyd rhoddion ariannol er cof am Wyn Jones (Maes y Berllan, Felindre gynt). Yn y llun gwelir Tomos, Osian ac Efa (wyrion Wyn) yn cyflwyno'r sic o £1,500 i Georgina Middleton (Therapydd Lliniarol Galwedigaethol). Cyflwynwyd £500 hefyd i wasanaeth gwerthfawr a diflino Marie Curie yng Ngheredigion er cof am Wyn. Hoffai'r teulu ddiolch i bawb am eu cyfraniadau.

Loire, Ffrainc yw Saint Germain sur Moine. Sefydlwyd y cysylltiad yn 2001, a phwyllgorau yn y ddwy dref sy'n cydlyn gweithgareddau. Mae'r pwyllgorau gefeillio yn trefnu ymweliadau cyson er mwyn cryfhau'r cysylltiadau. Roedd 2886 o drigolion yn Saint Germain sur Moine yn 2012, ac fe'i lleolir tua 20km o Cholet.

Cyrhaeddodd y Ffrancwyr ar brynawn Sadwrn i dderbyniad dinesig yn Neuadd yr Eglwys lle cafwyd gair o groeso gan Faer y Dref, y Cyng Chris Thomas. Paratowyd bwyd yno iddynt gan y Cyng Dorothy Williams a hi fu'n gyfrifol am sawl pryd blasus iddynt yn ystod eu harhosiad yn Llambled. Roedd pawb wrth eu bodd wedyn yn cerdded rownd y dre a'r coleg. Treuliwyd y noson gyntaf gyda'r teuluoedd.

Ar ddydd Sul aethpwyd i Aberystwyth lle cafwyd hwyl ar y siopa, hamdden yn yr haul braf o gwmpas y castell a chicio'r bar. Roedd pawb wedi mwynhau bod mewn lle mor ardderchog i grwydro a gweld y môr. Galwyd hefyd yn Aberaeron gan gerdded ar lan yr afon i'r dre. Cafwyd carferi yn y Castle Llambled gyda'r hwyr a'r plant yn chwarae pŵl.

Dechreuwyd yn gynnar ddydd Llun gyda 15 disgybl o Ysgol Bro Pedr yn ymuno â ni i fynd i Gydwelli. Arweiniodd Mr Deiniol Williams ni drwy'r porth ac wedyn i'r castell ysblennydd. Diolch i Mr Williams yn adrodd yr hanes mor fyw a diddorol i bawb. Cafwyd picnic hefyd yng Nghydwelli.

Ymweliad â Mwyngloddiau Aur Dolaucothi oedd ar yr agenda yn y prynhawn lle rhyfeddwyd yr ymwelwyr a'r disgyblion gan hanes y Rhufeiniaid mewn teithiau cerdded o dan ddaear ac o gwmpas y safle.

Neuadd Fictoria Llambled oedd y cyrchfan erbyn nos lle darparwyd y

bwyd gan y Cyng Dorothy Williams unwaith eto. Tynnwyd y raffl fawr a werthwyd o flaen llaw i godi arian er mwyn cynnal y teithiau cyfnewid hyn a'r holl weithgareddau.

Gan fod tipyn o blant ymhlith yr ymwelwyr y tro hwn, croesawyd hwy i Ysgol Bro Pedr ar fore Mawrth. Cafwyd gair o groeso yng ngwasanaeth y sector iau a threuliwyd gweddill yr amser iau a gwersi yn y sector hyn. Hoffai'r pwyllgor ddiolch yn fawr am bob cydweithrediad staff a disgyblion yr ysgol gan wneud profiad y plant ymhlith yr ymwelwyr yn un cofiadwy iawn.

Y Cyng Kistiah Ramaya yw Cadeirydd y pwyllgor Gefeillio ac ef oedd yn gyfrifol am y trefniadau y tro hwn, gyda chymorth ei wraig Carol. Tro pobl Llambled fydd hi nesaf i ymweld â Saint Germain sur Moine. Estynnir croeso cynnes i aelodau newydd i ymuno â'r pwyllgor er mwyn parhau â'r cynllun gefeillio hyfryd hwn.

Merched y Wawr

Y ffisiotherapydd Heledd Tomos oedd ein siaradwraig wadd ym mis Ebrill ond cyn iddi ddechrau roedd gan Janet dasg bleserus iawn i wneud. Braint oedd llongyfarch ein Is Lywydd, Elin Williams, ar ennill gwobr John a Ceridwen Hughes am ei gwasanaeth i ieuencid y fro. Diolch i Elin a'i dawn yn hyfforddi unigolion a phartion llefaru, cafodd plant yr ardal amryw o brofiadau ar lwyfannau Eisteddfodau Cenedlaethol ar hyd a lled y wlad. Mae hefyd wedi cael cryn lwyddiant gyda Pharti Llefaru Sarn Helen a heb anghofio ein Parti Llefaru ni a ddaeth i'r brig yng Ngŵyl Mai Merched y Wawr llynedd gyda'n detholiad o waith T. Llew Jones. Rydym yn ymfalchïo yn ei llwyddiant a braf oedd bod yn bresennol yn Ysgol Bro Pedr pan gafodd Elin wybod am ei gwobr.

Llanbedr Pont Steffan

Roedd hi dan yr argraff mai dysgu Gary Slaymaker oedd y rheswm ein bod yno - ond pan gerddodd Heledd Cynwal i mewn a datgelu'r gyfrinach roedd wyneb Elin yn bictiwr!

Llongyfarchiadau MAWR iddi - mae'n llawn haeddiannol o'r wobwr a phob dymuniad iddi wrth cael ei anrhydeddu lan yn Eisteddfod Fflint ddiwedd y mis.

Cawsom araith ddiddorol mewn Cymraeg naturiol oedd yn llifo gan Heledd yn olrhain hanes ei phroffesiwn ac yn esbonio y gwahanol feysydd o arbenigo sy'n bodoli o fewn ei gwaith. Gwnaeth hefyd ddangos ffilm yn esbonio ymhellach, cyn mynd ymlaen i ddangos sut oedd aciwbigo yn gweithio. Diolch i'w model dewr - sef ei mam Mair cawsom weld y piniau yn mynd mewn i law Mair - a hithau yn eistedd yn hollol gartrefol tra bod y broses yn mynd yn ei flaen. Esboniodd Heledd fod yna dair elfen i ffisiotherapi - cyhyrol, resbiriadol a newrolegol a diddorol oedd clywed ei barn ar sut oedd trin y poenau gwahanol. Fe ddysgom fod rôl y ffisio wedi tyfu mewn pwysigrwydd a statws ar hyd y blynyddoedd a bod yna alw mawr erbyn hyn i gydweithio ar draws y meysydd iechyd i sicrhau gwasanaeth llawn i'r cyhoedd. Eglurodd hefyd ei bod wedi sefydlu cwmni o'r enw Cam Cywir er mwyn helpu pobl y gymuned i ymdopi yn dilyn problemau meddygol.

Wrth gael paned ar ôl yr holl wybodaeth elfennol yma roedd pawb o'r farn ein bod wedi cael addysg a bod angen i ni gyd edrych ar ôl ein cyrff er mwyn cadw popeth i weithio'n iawn cyhyd â phosib!

Beicio o Budapest i Berlin

Ym mis Mehefin fe fydd Rhys a Rhodri Price, dau frawd o Llanbedr yn teithio 700 o filltiroedd ar draws 5 o wledydd ar gefn beic i godi arian ar gyfer dwy elusen.

Mae Rhys yn codi arian ar gyfer Ymchwil Cancr y Prostrat. Clefyd sydd yn effeithio tua 37,000 o ddynion yn y Deyrnas Unedig gan gynnwys ei dad-cu.

Bydd Rhodri yn gwneud y daith ar gyfer GOSH sef Great Ormond Street Hospital, elusen sydd hefyd yn agos iddo gan ei fod wedi bod yn glaf yno pan yn blentyn.

Bydd y daith yn dechrau ym Budapest, Hwngari ar y 13eg o Fehefin, Byddant wedyn yn teithio trwy Slofacia, Awstria, Y Weriniaeth Czech, gan orffen yn Berlin yn yr Almaen. Y bwriad ydy i gwblhau'r daith 700 milltir o fewn tair wythnos. Gwerthfawrogi eich nawdd.

Cymorth Cristnogol

Cynhelir noson arbennig yn Festri Brondeifi nos Iau Mai 19 am 7 o'r gloch wedi ei threfnu gan y gangen leol o Gymorth Cristnogol. Bydd Prif

Weithredwr Cymorth Cristnogol Cymru, Huw Thomas, yn annerch y cyfarfod. Gwerthfawrogi yn fawr iawn eich presenoldeb a'ch cefnogaeth.

Adran ac Aelwyd yr Urdd

Roedd swyddogion ac aelodau'r Adran a'r Aelwyd yn falch iawn i glywed mai Elin Williams fydd yn derbyn Tlws John a Ceridwen Hughes yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni am ei chyfraniad amhrisiadwy gydag ieuenctid yr ardal yn y maes llefaru. Bu'n hyfforddi partion yr Adran a'r Aelwyd ers dros 15 mlynedd ac oherwydd ei dawn arbennig mae'r aelodau wedi profi llwyddiant mawr ym Mhrifwyl yr Urdd gan ddod i'r brig sawl gwaith. Maent wedi elwa'n aruthrol o'r profiadau hyn a'r cyfan wedi rhoi hyder iddynt a hefyd bwydo'u balchder yn yr iaith Gymraeg a'i diwylliant. Bydd seibiant i'r partion llefaru eleni gan fod Elin yn beirniadu. Fe'i anrhyddeddir mewn seremoni arbennig ar lwyfan yr Eisteddfod nos Iau 2 Mehefin. Llongyfarchiadau calonnog Elin - haeddiannol iawn.

Mae aelodau'r Adran a'r Aelwyd wrthi'n brysyr yn ymarfer ar gyfer Eisteddfod Sir y Fflint yn dilyn eu llwyddiant yn yr Wyl Ranbarthol. Mawr yw eu dyled i Rhiannon am roi o'i hamser eleni eto i hyfforddi'r côr a'r parti deusain, ac hefyd i Lois am gyfeilio. Gwerthfawrogi eu gwasanaeth yn fawr iawn.

Pob lwc i Aled Wyn, Elan, Beca, y côr, y parti deusain a'r grŵp dawnio yn y Genedlaethol. Mwynhewch eich ymweliad â'r Gogledd.

Bedyddwyr

Cynhelir rihysal Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llanbedr yn Noddfa ar Sul 8 Mai am 2 o'r gloch dan arweiniad Emlyn Davies. Bydd y Gymanfa yng nghapel Bethel Cwm Pedol ar Sul 15 Mai am 4 o'r gloch - dalier sylw o'r amser newydd. Edrychwn ymlaen i groesawu Delyth Morgans Phillips fel Arweinydd gwadd ac Elliw Dafydd fel Llywydd, sef dwy o'n haelodau ifanc dawnus. Paratoir lluniaeth i bawb yn dilyn y Gymanfa. Croeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlad

Taenwyd cwmwl o dristwch dros ardal eang yn dilyn marwolaeth Dai Phillips, 19 Ffynnonbedr yn dawel yn Ysbyty Bronglais ar 20 Ebrill yn dilyn salwch byr, neu Dai Dŵr fel yr adwaenir ef gan bawb oherwydd ei waith ar hyd y blynyddoedd. Roedd yn gymeriad hoffus, caredig, parod iawn ei gymwynas. Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'i briod Nell, y plant Gwynnaf, Glenda a Glyn a'u teuluoedd ynghyd â'r perthnasau i gyd yn eu profedigaeth sydyn.

Cydymdeimlir yn ddiffuant â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli



Clwb Rotari Llanbedr yn cynnal Diwrnod Ymwybyddiaeth Strôc gyda'r Fferylllydd Adrian Thomas, Y Stryd Fawr.



Buddugwyr o Ysgol Bro Pedr yn eisteddfod Gelf a Chrefft Sirol yr Urdd sef Ifan, Lowri, Fflur a Hanna.

anwyliad yn ystod y mis.

Clwb Bowlio Llanbedr

Llongyfarchiadau i Melanie Thomas o Glwb Bowlio Llanbedr sydd newydd ddychwelyd o bencampwriaethau o dan dau ddeg pump y byd gyda medal arian. Roedd Mel yn cynrychioli Cymru gyda Jarrad Breen o'r Rhondda yn ystod y gystadleuaeth. Ar ôl brwydro'n galed i gyrraedd y rownd terfynol fel pâr, fe wnaethon nhw golli yn erbyn y tîm cartref, Awstralia, 19-14.

Adran Llanbedr

Bu aelodau'r Adran am benwythnos o hwyl yng Ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog a diolch yn fawr iawn i'r holl staff am roi o'u hamser yn wirfoddol i ofalu amdanynt. Cafwyd gemau bingo yn yr adran a nifer o blant yn ennill gwobrau di-ri. Diolch i Anthea am drefnu. Rydym fel aelodau yn edrych ymlaen yn awr at yr Eisteddfod Genedlaethol yn Fflint.

Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen

Fel y gwyddoch, mae Eisteddfod Llanbedr yn un o brif eisteddfodau Cymru ac yn dibynnu'n helaeth ar wirfoddolwyr lleol - i fod ar y pwyllgor gwaith, pwyllgorau



Melanie Thomas o Glwb Bowlio Llanbedr gyda Jarrad Breen ym mhencampwriaethau'r byd.

adrannol, i baratoi ar gyfer yr ŵyl sy'n para tridiau ac i stiwardio a gweithio'n ymarferol ynddi a thuag ati. Rydym yn ddiabynnol ar nawdd a rhoddion ariannol, ond fel mewn sawl maes, mae toriadau i'w gweld yng nghoffre'r Eisteddfod hefyd. Tybed a fydddech chi'n dymuno cyfrannu ar gyfer cynnal ein heisteddfod neu gynnig gwobrau? Os ydych chi - fel unigolion, teuluoedd, busnesau, cwmnïau neu gymdeithasau - yn dymuno rhoi rhywbeth (swm bach neu fawr), mae'n siŵr y byddai Dorian Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Eisteddfod, yn falch iawn o glywed gennych. Diolch i chi am gefnogi un o'n prif wyliau sy'n gonglfaen diwylliant y fro.

Diolch

Dymuna Nell a'r teulu, 19 Ffynnonbedr ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu profedigaeth o golli Dai. Maent yn ei werthfawrogi yn fawr iawn. Diolch.

Llwyddiant cerddorol

Llongyfarchiadau i Jessica McDonagh, Amakhaya, Heol Maestir am basio Gradd 3 ar y piano gyda chlod dan nawdd y 'London College of Music' yn ddiweddar. Da iawn ti.

Llanybydder

Pwyllgor Buddiannau Henoed

Cynhelir Noson Goffi dan nawdd Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder yn Ffestri Aberduar am 7.00y.h. nos Wener, Mai 13eg. Agorir gan Mrs Pam Burke. Croeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs Dilys Wilson, 1 Heol-y-Gaer ar farwolaeth ei gŵr, Graham, yn ystod y mis. Cofiw'n hefyd am ei bechgyn - Mike, Alan, Neville, Neil, Mark ac Andrew, a'u teuluoedd hwythau i gyd. Derbyniwch ein cydymdeimlad.

Merched y Wawr

Mae'n anodd credu bod y tymor yn prysur ddirwyn i ben.

Nôl yn niwedd Chwefror, cawsom noson ddifyr yng nghwmni criw o Ferched y Wawr, Llanbed. Ar ôl mwynhau llond bola o gawl wedi'i baratoi gan Beti Davies, bu merched Llanbed yn ein diddanu drwy ganu, adrodd, canu'r delyn, darllen stori a pherfformio sgets.

Ym mis Mawrth, cafwyd noson addysgiadol pan fu Marye Wyvill yn ein haddysgu sut i edrych ar ôl ein hesgyrn am oes.

Yn Ebrill, taith gerdded i Aberaeron oedd ar yr agenda, ac wrth gwrs roedd yn rhaid gorffen y noson drwy gael pryd blasus yn yr Harbwrfeistr.

Bydd y tymor yn gorffen gyda thaith ddirgel fydd yn cael ei threfnu gan ein Llywydd, Catrin Thomas.

Os hoffech ymuno â ni, bydd y tymor newydd yn dechrau nos Lun, y 26ain o Fedi am 7.30 yn festri Aberduar. Bydd croeso cynnes i bob un ohonoch.

Ysgol Gynradd Llanybydder

Roedd yn bleser fel arfer ar ddechrau tymor newydd i groesawu disgyblion newydd i'r Cyfnod Sylfaen. Maent wedi ymgartrefu'n dda ac yn mwynhau yn yr ysgol. Pleser hefyd oedd croesawu myfyrwraig, sef Iona Davies, i ddosbarth 5 a 6. Gobeithio bydd yn mwynhau ei phrofiad gyda ni.

Dymuna'r ysgol ddiolch yn fawr iawn i Ymddiriedolaeth R. R. Davies am y rhodd o fil o bunnoedd i'r ysgol. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu ardal allanol y Cyfnod Sylfaen.

Dydd Mercher Ebrill 13eg aeth plant y Cyfnod Sylfaen ar ymweliad addysgiadol â Fferm Ffoli. Roedd yn ddiwrnod braf a chafodd y plant amser da. Ar yr un diwrnod, aeth blwyddyn 3 a 4 ar ymweliad addysgiadol â'r Gerddi Botaneg. Cawsant hwythau ddiwrnod arbennig hefyd.

Dydd Mercher Ebrill 20fed bu rhai o'r plant hŷn yn nhwrmaint pêl droed yr Urdd yn Aberystwyth.

Dymuniadau gorau i'r disgyblion sy'n mynd ymlaen i gystadlu yn

rownd nesaf y twrnamaint trawsgwlad yn Aberaeron ar Ebrill 29ain.

Dydd Iau Ebrill 21ain daeth dwy aelod o'r NSPCC i'r ysgol i gynnal gweithdai efo disgyblion blwyddyn 5 a 6.

Mae Jack Rees yn dal i ddod atom bob bore Llun i gynnal sesiynau rygbi. Mae'r plant i gyd wrth eu boddau ac yn mwynhau mas draw. Mae'r sesiynau yma o fudd mawr iddynt.

80 oed

Dathlodd Ieuan Jones, Gwelfryn ei ben-blwydd yn 80oed yn ystod y mis. Gobeithio i chwi fwynhau eich diwrnod.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys iawn gyda theulu'r diweddar Mrs Maud Davies, nawr o gartref Alltymynydd ond gynt o Heol y Gaer, a fu farw ddiwedd y mis. Bu'r angladd yn gyhoeddus yng Nghapel Rhydybont.

Pwyllgor Pentref Llanybydder

Ar nos Wener 22ain o Ebrill cynhaliwyd noson dawns dewis y swyddogion carnifal yng Nghlwb Rygbi Llanybydder. Roedd yn noson lwyddiannus dros ben a chafodd y plant amser da. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am cael eu ddewis fod yn swyddogion: Brenhines - Hana Jones; Morwynion - Lily Smith a Kiah Brown; Brenhines Tylwyth Teg - Amy Rees; Tywysog Bach - Mason Brown.

Mi fydd y carnifal ar 25ain o Fehefin, gorymdaith i ddechrau am 12.30yp o Maes parcio Y Llew Du ac i ddechrau yng nghae Rygbi Llanybydder am 1.00yp. Thema gwisgo lan yw 'Hollywood'

Noson y carnifal yn y Llew Du - disco i'r plant am 6.00yh gyda disgo a canwr Carys Mai Jones i'r oedolion o 8.00yh nes hwyr

Wythnos carnifal: 19fed o Mehefin - 24ain o Mehefin; Dydd Sul - Gymanfa ganu yng nghapel Aberduar am 6.30yh; Dydd Llun - Helfa trysor car, £5 y car, i ddechrau o Glwb rygbi am 6.00yh; Dydd Mawrth - Bingo yng nghlwb rygbi am 8.00yh; Dydd Mercher - Helfa trysor cerdded - Dechrau o Tan y Graig am 6.30yh; Dydd Gwener -



Swyddogion newydd Carnifal Llanybydder.



Ogwen Evans yn cyflwyno sic o £3,000 ar ran Cymdeithas Chwiorydd Aberduar i Alan Jacob, Trysorydd y capel. Yn ogystal gwelir yn y llun y Parch Jill Tomos ac aelodau eglwys Aberduar.

Cwis yn y Llew Du.

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Emma Herbert, Bwthyn y Saer, am basio Gradd 3 ar y piano gydag anrhydedd dan nawdd y 'London College of Music'. Cafodd Emma 90% gan gael marciau llawn yn y gwaith technegol ac mewn un darn. Arbennig yn wir.

Cap Cyntaf

Llongyfarchiadau i Steffan Wilson, Llanybydder, 22 oed, sydd wedi ei ddewis i chwarae yn nhim rygbi'r Fyddin Prydeinig ac a dderbyniodd ei gap cyntaf tra'n chwarae yn erbyn Byddin Frainc mewn gêm i goffâu Brwydr y Somme yn 1916.



Sefydliad Prydeinig y Galon
Cangen Llanybydder a
Llanbed

**Te Prynhawn
yn y Pantri, Llanbed**

25 Mai 2016

2 o'r gloch y prynhawn

Mynediad trwy rodd.

It's a Knockout

**Dydd Sul Gŵyl y Banc 29ain
Mai, Cae Rygbi Llanybydder**

i ddechrau am 1.00yp.
Timoedd o 4 - £10.00 y tîm.
Gwobr - £50.00 a tarian.
Dros 16 oed

Noson o adloniant yng nghlwb rygbi Llanybydder gyda canwr - Kiri Lee a disgo, barbeciw a raffl
Oedolion £3.00

Plant Ysgol Uwchradd £1.00
Plant ysgol gynradd Am ddim
Mi fydd hanner yr elw yn mynd tuag at Vision Aid Overseas lle fydd Rhian Mansel yn cerdded Kilimanjaro.

Cancer Research UK
Llanybydder a'r Ardal

Barbeciw

Yn y Llew Du Llanybydder

11 Mehefin 2016 am 12 o'r gloch

Stondinau, Raffl
Adloniant: Lleisiau'r Werin a Phlant
Ysgol Llanybydder

Llywydd: Mrs Angharad Jones,
Llanybydder

Mynediad trwy rodd

Rhif elusen: 1089464

Llangybi a Betws Bledrws

Ysgol Y Dderi

Llongyfarchiadau mawr i'r holl blant a fu'n cystadlu yng nghystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd dros Geredigion yn ddiweddar. Daeth llwyddiant ysgubol gyda'r ysgol yn ennill 39 o wobrau! Mi fydd yr 17 wobwr gyntaf yn mynd ymlaen i gynrychioli'r sir yn Eisteddfod Genedlaethol Y Fflint. Pob lwc!

Mae'r dosbarth Derbyn yn mwynhau y cyfle i gael mynychu gwersi nofio yn ystod y tymor yma gyda'u ffrindiau o flwyddyn 1 a 2. Mae'n gyfle gwych iddynt fagu hyder yn y dŵr a datblygu eu sgiliau nofio.



"Blits" oedd thema blwyddyn 5 a 6 yn ystod yr hanner tymor diwethaf, a daeth aelod o gwmni Mewn Cymeriad i gynnal sioe rhyngweithiol yn yr ysgol. Rydym bob amser yn falch iawn i groesawu sioeau Mewn Cymeriad am eu bod o'r safon uchaf, ac yn dod â hanes yn fyw i'r plant. Unwaith eto cawsom sioe addysgol gwefreiddiol. Fel diweddsglo i'w thema, daeth disgyblion blwyddyn 5 a 6 i'r ysgol wedi gwisgo i'w ddathlu "Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop". Bu'r plant yn paratoi gwledd yn dilyn ryseitiau o'r cyfnod a oedd yn ystyried dogni bwyd, gwnïo "bunting" o ddefnydd wedi ailgylchu, dawnsio, canu a chwarae gemau buarth o'r cyfnod. Diwrnod bythgofiadwy.



Daeth Osian Gwilym Jones, Swyddog Amgylchedd yr Urdd i fewn i'r ysgol i gynnal gweithdy "Ymchwiliad gwrychoedd" gyda disgyblion blwyddyn 3 a 4 sy'n astudio cynefinoedd yn ystod yr hanner tymor yma. Cawsom gyfle i arsylwi, ymchwilio a chyfri'r planhigion a'r creaduriaid sy'n byw yng nghlawdd yr ysgol.

Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 mewn darlith wyddoniaeth yn Theatr Felinfach yn ddiweddar dan ofal Prifysgol Aberystwyth. Testun y ddarlith oedd "Gwyddoniaeth ac Egni" a chafwyd cyflwyniad rhyngweithiol cyffrous iawn. Cynhaliwyd nifer o arbrofion gweledol ac roedd y plant wrth eu boddau yn ystod y profiad dysgu gwych yma.

"Arwyr a dihirod" yw thema blwyddyn 5 a 6 yn ystod y tymor yma, a braf oedd cael croesawu Twm Sion Cati, arwr lleol i'r ysgol i gynnal gweithdy gyda'r disgyblion. Cafwyd bore bendigedig yn cymharu Twm Sion Cati ag arwyr cyfoes heddiw. Am drafodaeth wych!

Aeth tîm o ferched a bechgyn i gynrychioli'r ysgol yng nghystadlaethau pêl-droed yr Urdd dros Geredigion ar gaeau Blaendolau yn Aberystwyth. Roedd y ddau dîm wedi chwarae fel tîm, a llwyddodd y merched i gyrraedd y rownd gyn-derfynol. Llongyfarchiadau i'r ddau dîm am roi o'u gorau.

Cydnabyddiaeth

Dymuna David, Bryndulais, Llangybi ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddo yn ei brofedigaeth o golli ei frawd Derek.

Diolch hefyd i'r Parch Dafydd Jones, yr organyddes, ac i'r gwragedd am

baratoi y te ac i Mr Tom Eurfyl Jones am ei drefniadau gofalus.

Derbyniwyd cyfraniadau o £500 er cof am Derek tuag at Mynwent Eglwys Llangeitho.

Hamdden

Ar brynhawn gwyntog ar Ebrill 1af aethpwyd ar drip dirgel a chael ein hunain yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog a ddaeth i fodolaeth yn 1932. Er gwaethaf y tywydd cafwyd croeso cynnes iawn yno ac ychydig o hanes am sefydlu'r mudiad a'i ddatblygiadau yn ystod y blynyddoedd. Cawsom rai o straeon T Llew Jones, yr awdur lleol a thoreithiog yn myd llenyddiaeth i blant. Yna cawsom de bendigedig. Croesawodd Janet Farrow bawb a diolchodd iddynt am eu cefnogaeth i'r trip. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch gwresog gan Maureen Williams gan ddiolch i bawb a oedd wedi cyfrannu at lwyddiant y trip.

Enillwyd y raffl gan Gwen Lewis, Maureen Williams, y dreifer, Jenny Thomas a'i mam, Barry Williams, Eifion Davies, Maisie Morgan a Dai Griffiths.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Ysgol y Dderi ar Fai 6ed am 2:00 o'r gloch pryd y disgwylir Michael Morgan i'n hannerch ar sut i ddefnyddio 'defribillator'. Dewch hefyd â syniadau ar gyfer rhaglen y tymor nesaf ac enwau am is-lywydd ac ysgrifennydd.

Merched y Wawr Y Dderi

Croesawodd y llywydd Gwyneth Jones bawb i'r cyfarfod gan gydymdeimlo â Gwyneth Evans yn ei phrofedigaeth ar farwolaeth ei chwaer Nancy ac hefyd ag Ifor Williams yntau hefyd mewn profedigaeth.

Gwesteion y noson oedd Gwynfor Lewis ac Ifor Williams. Cawsom hanes eu taith fythgofiadwy ar feic o Lundain i Baris mewn pedwar diwrnod ac mewn grŵp o bobl – 286 ohonynt i gyd. Maent wedi codi swm enfawr tuag at elusen y Lleng Brydeinig. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch iddynt am noson hyfryd, ddiddorol a'u hymroddiad i'r fenter o gyrraedd pen y daith.

Rhoddwyd y gwobrau raffl gan Iris Quan a Gwyneth Jones ac fe'u henillwyd gan Deborah Jones, Gwynfor Lewis a Mair Spate.

Penderfynwyd cefnogi cais Capel Cilgwyn am gymorth ariannol i adnewyddu'r to.

Ail etholwyd Gwyneth Jones fel llywydd, Deborah Jones fel is-lywydd a Mary Jones fel trysorydd. I ddiweddu cafwyd paned o de a bisgedi wedi eu cyfrannu gan Deborah Jones a Gwyneth Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf yn yr ysgol ar Fai 18fed i drefnu rhaglen 2016-2017, felly dewch â'ch syniadau os gwelwch yn dda.

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad y fro â Mr Aled Williams, 1 Godre'r Coed yn ei brofedigaeth o golli ei nai yn ddiweddar, ac hefyd â Mrs Dilys Evans, Godre'r Coed hithau hefyd wedi colli aelod o'r teulu. Cydymdeimlir â'r holl gysylltiadau teuluol a ffrindiau.

Adferiad

Dymunir adferiad llwyr a buan i Mr Tudor Jones, Penybank sydd wedi treulio cyfnod yn ysbyty Bronglais ond sydd adref yn awr. Croeso adref i Mr Pinkstone, yntau hefyd wedi treulio peth amser oddi cartref. Brysiwch wella eich dau.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys iawn â theulu a pherthnasau y diweddar Mrs Bethan Morgan, Murmur y Nant (Coedparc) yn eu brofedigaeth. Estynnir cydymdeimlad â'r holl gysylltiadau teuluol a ffrindiau.

LYN JONES

"At eich gwasanaeth"

- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn

01570 481029
Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL

Drefach a Llanwenog

Y Cymdeithas Hŷn

Cafwyd diwrnod arbennig o braf ar y 13eg o fis Ebrill i ddechrau cyfres tripiâu'r haf. Roedd yna 31 o aelodau a ffrindiau ar y bws yn gadael Drefach, a theithio hyd at Fachynlleth cyn aros am baned, ac wrth gwrs cael cyfle i weld o gwmpas stondinau'r farchnad.

Ymlaen wedyn i gyfeiriad y Bala, ond aros yng Nghanolfan Mari Jones yn Llanycil. Caewyd Eglwys Llanycil yn 2003, ond yn ffodus, rai blynyddoedd wedyn, prynwyd yr adeilad gan Gymdeithas y Beibl. Yn y fynwent ger yr eglwys mae bedd Y Parchedig Thomas Charles - a'i gysylltiad ef yn gwerthu Beibl i Mari Jones yn y flwyddyn 1800 yn arwain at sefydliad Cymdeithas y Beibl Prydeinig a Thramor yn 1805. Codwyd Canolfan gerllaw'r eglwys, yn darparu lluniaeth ysgafn, a thrwy modd sgrin yn medru adrodd hanes Mari Jones yn cerdded y 26 milltir o Lanfihangel-y-Pennant i brynu Beibl. Yr eglwys ei hun wedi ei thrawsnewid yn ganolfan hanes, eto'n portreadu hanes Mari Jones, Thomas Charles a rhagor, ac yn wirioneddol yn werth ei gweld.

Cael rhagor o hanes wedyn wrth deithio o gwmpas Llyn Celyn (Tryweryn), a chofio'r hanes am foddï'r pentre, a'r effaith fu ar y gymdogaeth.

Nôl am Aberystwyth i gael swper blasus yng Ngwesty'r Marine, a phawb wedi mwynhau diwrnod arbennig. Diolch i Brenda Jones a Jane Jones am drefnu'r daith.

Bydd y trip nesa'n mynd i Dalgarth ac ardal y Gelli Gandryll (Hay-on-Wye), ddydd Mercher, Mai 11eg. Enwau i Yvonne 480590.

Eglwys Santes Gwenog

Yn absenoldeb Ficer Suzy Bale, cymerwyd y Gwasanaeth Teuluol ar y 24ain o fis Ebrill gan y Parchedig Bill Fillery, a phawb yn falch o gael presenoldeb ein cyn-ficer yn ôl gyda ni.

Dymuniadau gorau i Mrs Mair Davies, 2 Highmead Cottages, sydd wedi dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed yng nghwmni ei theulu.

Gobeithir gweld Mr a Mrs David Rees, Llys Dolau yn ôl gyda ni cyn hir: mae'r ddau wedi bod yn anhwylyd yn ddiweddar, felly gwellhad buan iddynt.

Cofiw'n am bawb sydd mewn cartref preswyl - sawl un o blwyf Llanwenog yn Hafan Deg erbyn hyn. Cofiw'n hefyd am bawb sydd wedi colli anwyliad yn ddiweddar - rydym yn meddwl amdanoch i gyd.

Clwb Cant Mis Mawrth: 1. Osian Davies, Llanwenog; 2. Anita Evans, Llanllwni; 3. Ian Jones, Cwmsychbant.

Cffi Llanwenog

Fuodd llawer o aelodau'r clwb yn Llanellwedd yn cystadlu yng nghystadleuaeth siarad cyhoeddus Cymru ar ddechrau mis Ebrill. Llongyfarchiadau mawr i bawb fuodd wrthi'n cystadlu a chipio'r gwobrau ar lefel Cymru! Daeth Enfys Hatcher yn gyntaf fel siaradwraig dan 26 Cymraeg, Rhys Davies yn drydydd fel cadeirydd dan 21 Cymraeg a Ffion Evans yn ail fel cadeirydd dan 16 Cymraeg ac yn drydydd fel cadeirydd dan 16 Saesneg. Roedd Ffion hefyd yn rhan o'r tîm ddaeth yn gyntaf yn y gystadleuaeth Gymraeg dan 16 ac Enfys Hatcher a Luned Mair yn rhan o'r tîm buddugol dan 26 Cymraeg.

Da iawn chi!

Cipiodd tîm Llanwenog yr ail safle yng nghwis iau'r sir yn ystod y mis yn ogystal, a rhai aelodau'n mwynhau nofio'n y pwll yng nghystadleuaeth y gala nofio.

Os oes gennych ddiddordeb ymuno â'r clwb neu am ragor o wybodaeth ewch i'r wefan: www.cffillanwenog.org.uk

Ysgol Llanwenog

Braf yw croesawu tri disgybl newydd i ddosbarth y Cyfnod Sylfaen sef Brynach Davies, Dion Davies a Matthew Jones. Maent wedi ymgartrefu yn arbennig o dda yn barod ac wedi gwneud nifer o ffrindiau newydd.

Rhaid llongyfarch dau o ddisgyblion yr ysgol ar eu gwaith Celf a Chrefft yng nghystadleuaeth yr Urdd. Cafodd Rhodri Gregson y wobr gyntaf am dynnu llun â chamera, darlun du a gwyn. Cafodd Ethan Rees yr ail wobr am greu darlun creadigol yn ymwneud â'r testun perthyn. Da iawn chi fechgyn! Bydd gwaith ffotograffiaeth Rhodri yn mynd ymlaen yn awr i Eisteddfod yr Urdd yn Fflint. Pob lwc i ti!

Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr iawn am y nawdd ariannol a dderbyniom o goffre Ymddiriedolaeth R R Davies. Mae'r arian yma wedi ein galluogi i brynu offer cyfrifiadurol megis tri ipad i'r ysgol. Mae cyfraniadau o'r fath yn amhrisiadwy yn yr oes sydd ohoni. Rydym yn gwerthfawrogi'r rhodd yma yn fawr iawn.

Bu plant blwyddyn chwech yn ymweld ag Ysgol Bro Pedr eto fel rhan o'r cynllun pontio i'w paratoi ar gyfer trosglwyddo fis Medi nesaf. Cawsont gyfle i ymgysgu'r ysgol â

gwersi Gwyddoniaeth yn ogystal â Dylunio a Thechnoleg.

Bydd Ysgol Llanwenog yn cynnal ei Ffair Haf flynyddol nos Wener y 17eg o Fehefin. Dewch yn llw i gefnogi.

Taith Tractorau

Ddydd Sul, Mai 22ain cynhelir Taith Tractorau Drefach ar gaeau Maesyronnen am 10.30y.b. Elw tuag at Multiple Sclerosis a Chlwb Cledlyn. Am fanylion pellach cysyllter â Peter 01570 434342 neu Jeff ar 01570 481121. Dewch yn llw.

Merch fach

Ar ddechrau mis Ebrill ganwyd merch fach, Fflur, i Rhian ac Andrew Davies, Abertegan. Chwaer fach i Gwenllian ac Angharad. Wyres arall i Gill a Daff Davies, Bwthyn Brynteg. Dymuniadau gorau i chwi fel teulu.

Pen-blwyddi Arbennig

Ganol mis Ebrill dathlodd Mrs Mair Davies, 2 Highmead Cottages ben-blwydd yn 80 oed.

Ymhen rhai diwrnodau wedyn, dathlodd Mrs Mair Davies, Dolwerdd ei phen-blwydd yn 90oed. Mae ar hyn o bryd yng nghartref Hafan Deg, Llambod. Gobeithio y cawsoch ddiwrnod wrth eich bodd a dymunwn iechyd gwell i'r dyfodol.

Gobeithio bod y ddwy Mair wedi cael diwrnodau i'w cofio.

Diolch

Dymuna Mair Davies, Dolwerdd ddiolch i bawb am eu dymuniadau gorau ar achlysur ei phen-blwydd yn 90oed yn ystod y mis – boed yn gardiau, blodau, arian a rhoddion o bob math. Gwerthfawrogi'r cyfan oll yn fawr iawn.

Ffarmers

Cymanfa Ganu

Cynhelir Cymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Caio a Llanbedr Pont Steffan ym Methel, Cwm Pedol ar y 15fed o Fai am 4.00 o'r gloch. Yr arweinydd fydd Mrs Delyth Morgans Phillips. Bydd rihysal ar y Sul blaenorol, yr 8fed o Fai, yng Nghapel Noddfa, am 2.00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Cystic Fibrosis

Cynhaliwyd Cyngerdd a Gwasanaeth Garolau yn Neuadd Bro Fana fel arfer ar y Sul cyn y Nadolig, yng nghwmni Côr Meibion Llanymddyfri gydag aelodau o'r eglwys a chapeli'r ardal yn cymryd at y rhannau arweiniol. Gwnaethpwyd elw o £430, a chyflwynwyd yr arian eleni i'r Cystic Fibrosis Trust. Diolch i bawb a gefnogodd y noson, a chyfrannu mor hael i sicrhau elw teilwng i'r elusen.

Noson yng Nghwmni

Cynhelir noson yng nghwmni Aneurin Davies, a'i fab Terwyn Davies yn Neuadd Bro Fana ar nos Wener, y 27ain o Fai am 8.00 o'r gloch. Yn ogystal â chwmmi Aneurin a Terwyn, fe fydd yna bwffe llawn i'w fwynhau. Felly, ymunwch â ni am noson hwylus. Mae tocynnau ar gael oddi wrth aelodau Cyngor y Neuadd, neu trwy e-bostio neuaddbrofana@ffarmers.org. Bydd elw'r noson yn mynd i'r Neuadd, ac yn arbennig felly i gwrdd â rhan o'r gost o brynu de-fibrulator ar gyfer y pentref. Edrychwn ymlaen i'ch gweld.

Clwb Cefnogwyr Neuadd Bro Fana

Yn dilyn 30 mlynedd fel Ysgrifennydd a Thrysorydd Clwb Cefnogwyr y Neuadd, mae Iris Evans ac Eirwen Thomas wedi rhoi'r gorau i'r swyddi. Yn ystod eu cyfnod wrth y llyw, mi ddatblygodd y Clwb 100

i fod yn Glwb Cefnogwyr, gyda'r aelodaeth yn cynyddu yn sylweddol, gan sicrhau incwm cyson i'r Neuadd. Diolchwyd i'r ddwy ohonynt am eu gwaith diflino ar hyd y blynyddoedd, a chyflwynwyd rhodd iddynt fel arwydd o werthfawrogiad. Rydym hefyd yn ddiolchgar i Judy Jenkins ac Ethel Davies sydd bellach wedi cymryd at y swyddi, gan ddymuno'n dda iddynt.

Caffi Croeso

Mae'r Caffi Croeso yn mynd o nerth i nerth, gan gwrdd bob bore Mercher rhwng 10.00 ac 1.00 o'r gloch yn Yr Haulfan. Cyfle am sgwrs a phaned, a chinio ysgafn os ydych yn dymuno. Mae'r trefniadau yng ngofal Tina Marshall a Lilian Faulkner, gydag eraill yn rhoi help llaw fel bod angen. Diolch iddynt hefyd am drefnu bore coffi ym mis Chwefror gan godi £170 tuag at y

gost o brynu de-fibrulator i'r pentref.

Marchnad Ffermwyr

Cofiwch fod Marchnad Ffarmers yn cael ei chynnal ar Sadwrn cyntaf y mis rhwng 10.00 ac 1.00 o'r gloch. Mae yna amrywiaeth o stondinau yn gwerthu bara a chacennau; jam, mêl a siytni; llysiau a ffrwythau &c. Cynhelir y farchnad nesaf ar ddydd Sadwrn, y 7fed o Fai, ac wedyn ar y 4ydd o Fehefin. Mae yna hefyd gyfle am baned a sgwrs – galwch mewn!

Rhifyn Mehefin

Yn y Siopau Mehefin 2il

Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
Mai 23ain

O'r Cyngorau Bro



Cyngor Bro Llanllwni 14 Mawrth 2016

Cyng Dewi Davies (Cadeirydd); Eirlys Owen (Clerc)

Agenda - Roedd y Clerc wedi rhoi copi o'r agenda yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod. Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Estynwyd cydymdeimlad i Tom Jones ar farwolaeth ei frawd yng nghyfraith yn ddiweddar.

Dymunwyd pob dymuniad da i Dewi Thomas.

Plismona - Croesawyd Eleri Bonning i'r cyfarfod. Cafwyd trafodaeth fuddiol ar ddiogelwch yn y plwyf.

Y Cae Chwarae - Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio yn fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones ac Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae. Nodwyd bod angen i Lyn Jones lanhau'r matiau; byddai'r Cadeirydd yn cysylltu â Lyn Jones i wneud trefniadau.

Toiledau - Penderfynwyd bod angen toiledau ar y Cae Chwarae rhwng 01 Mehefin a 30 Medi; byddai'r Clerc yn cysylltu â Kangaloos i wneud trefniadau.

Yr Adnodd Chwarae - Roedd y Clerc wedi cysylltu â Ian Edwards am archwiliad yn y Gwanwyn.

Gwefan Llanllwni - Roedd y wefan newydd wedi mynd yn fyw ar 01 Mawrth ar Llanllwni.Cymru. Roedd adroddiadau o gyfarfodydd y Cyngor Bro ar y wefan.

Tyllau yn yr hewl - Glenydd - Cwmderi. Fferm Talardd - Aberceiliog. Ffynonddrain - Gwarewm. Y gwaith heb ei gwblhau.

Torri Clawdd - Pendderi - Prysg. Y gwaith wedi ei gwblhau.

Goleuadau - Y goleuadau gyferbyn â'r ysgol ddim yn gweithio.

Rhos Uchaf - Cadarnhawyd nad y Cyngor Sir oedd yn berchen ar y darn o dir. Roedd perchnogion Rhos Uchaf yn hapus bod pot blodyn yn cael ei osod yno a bod Lyn Jones yn torri'r borfa. Penderfynwyd yn unfrydol i archebu pot blodyn yr un fath â'r rhai sydd yn y pentref yn barod cyn y cyfarfod nesaf; byddai'r safle yn cael ei baratoi ymlaen llaw a derbyniwyd cynnig o beiriant gan Tommy Davies. Diolchwyd iddo am y gymwynas.

Amnest Teiars a Gwastraff - Dydd Mawrth 15 Mawrth ym Maes Parcio Llanybydder o 8 yb - 1 yp.

Tân ar y Mynydd - Cynnau tân ar fynydd Llanllwni i ddathlu penblwydd y Frenhines yn 90 oed. Bu gwrthwynebiad cryf yn y gorffennol.

Ceisiadau am Gymorth - Penderfynwyd cefnogi Gofal Mewn Galar, Pwyllgor Ymgynghorol Sir Caerfyrddin (Cymdeithas y Sioe Fawr), Teenage Cancer Trust, Eisteddfod Urdd Gobaith Cymru 2016, Eisteddfod Genedlaethol 2016, Clefyd y Galon (Ardal Llanybydder).

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 09 Mai 2016 am 8yh. Bydd yn Gyfarfod Blynnyddol.

Cyngor Cymuned Llanybydder Mawrth 2016

Y Parc Chwarae - Mae'r Cyng Ieuan Davies wedi bod yn brysur iawn. Mae'r Clerc wedi danfon archeb am y pethau newydd sy'n dod i'r parc, ac mae pawb yn edrych ymlaen.

Yr Ynys, Heol-y-Gaer - Mae'r Clerc wedi ysgrifennu at y Cyngor i ofyn am arwyddon "ildiwch / give way" yma, gan fod gyrwyr yn aml ddim yn siŵr pwy sydd â'r heol.

Cofgolofn - Mae'r Clerc wedi danfon y ffurflen grant. Gobeithio y byddwn yn llwyddiannus er mwyn gwella'r gofgolofn.

Croesfan Pelican - Mae'r Clerc wedi danfon llythyr at y Cyngor i ofyn a fyddai gobaith inni gael Croesfan Pelican ar y sgwâr top.

Twmpathau ger yr Ysgol - Mae llawer wedi dweud bod gyrwyr yn mynd yn llawer rhy glou heibio'r ysgol. Mae'r Clerc wedi danfon llythyr i ofyn am gyfarfod ynghylch y mater.

Domen Cŵn - Mae'r Clerc i ysgrifennu at y Cyng Jim Jones sy'n delio â chŵn sy'n cael eu gadael yn rhydd a gwneud tomen ymhob man. Mae'n mynd i ofyn i'r Warden Cŵn ddod i Lanybydder.

Pen-blwydd y Frenhines yn 90 oed - Mae Pam Burke wedi bod yn gweithio'n galed eto, er mwyn i blant ysgol cael anrheg i nodi'r pen-blwydd.

Cyfarfod Blynnyddol AGM - Diolchodd S Maskelyne i bawb am bob help a chymorth dros y flwyddyn. Diolchodd y Clerc i S Maskelyne am ei gwaith da dros y flwyddyn fel Cadeirydd.

Pat Okeeffe fydd y Cadeirydd newydd am y flwyddyn. Eddie Davies a ddewiswyd yn Ddirprwy Gadeirydd.

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

Cwrtnewydd



Disgyblion Ysgol Cwrtnewydd yn ymweld â safle Ysgol Dyffryn Cledlyn.



Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Ela Mablen Griffiths-Jones, 2 Fronddu a fydd yn cynrychioli'r sir yn Eisteddfod yr Urdd yn Fflint ar yr Unawd Cerdd Dant a Llefaru i fl 2 ac iau. Llongyfarchiadau iddi hefyd am ennill yn Gwaith Argraffu yn sirol. Pob hwyl yn y Fflint.

Ysgol Cwrtnewydd

Croesawyd pawb yn ôl i'r ysgol ar ôl gwyliau Pasg hamddenol yn barod am dymor olaf disgyblion blwyddyn 6 yn Ysgol Cwrtnewydd. Mae disgyblion blwyddyn 6 wedi cwblhau eu diwrnodau pontio yn Ysgol Bro Pedr erbyn hyn, ac wedi dod yn

gyfarwydd â'r ysgol erbyn mis Medi.

Cynhaliwyd cystadleuaeth Celf a Chrefft yr Urdd Sir Geredigion yn Llangrannog ar ddechrau'r tymor. Daeth llwyddiant i Lisa Jenkins gyda chyfres o brintiau lliw ac i Katy Moyes gyda llun lliw. Bydd y ddwy eitem yn mynd ymlaen i'r rownd genedlaethol. Cafodd Luned Jones ail am Waith Creadigol 2D a Megan Davies trydydd am waith Tecstilau 3D. Da iawn chi.

Braf yw cael croesawu Jac Rees swyddog datblygu rygbi cylch Llanbed i'r ysgol; bydd Jac yn cynnal sesiynau sgiliau rygbi gyda'r plant yn ystod y tymor.

Bu plant blwyddyn pump y dair ysgol mewn gweithdy Gwyddoniaeth gyda Phrifysgol Aberystwyth yn Theatr Felinfach yn ystod yr wythnosau diwethaf. Roedd y plant wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn.

Aeth Alaw Jones a Lisa Jenkins am fore o hyfforddiant fel Llysgenhadwyr Chwaraeon yr ysgol. Bu'r merched yng nghwmni'r gymnast Frankie Jones; roedd y ddwy wedi mwynhau'r profiad ac yn edrych ymlaen yn eiddgar i rannu eu profiadau gyda gweddill yr ysgol.

Cafodd yr ysgol gyfan gyfle i ymweld â safle Ysgol Dyffryn Cledlyn yn ddiweddar. Roedd y plant a'r staff yn llawn cyffro yn mynd o amgylch yr adeilad newydd crand. Cafwyd cyfle i ofyn cwestiynau i'r cwmni adeiladwyr. Daeth pawb yn ôl i'r ysgol yn edrych ymlaen at yr ymweliad nesaf!

Rydym yn ddiolchgar iawn fel ysgol i derbyn arian gan Ymddiriedolaeth R R Davies. Bydd yr arian yn mynd i brynu ipads i'r ysgol. Hefyd diolch yn fawr iawn i'r gymdeithas rieni ac athrawon am eu cyfraniad hwy tuag at ipads newydd i'r ysgol.

Clwb 100 Chwefror - 1af Avril Jones, Blaenwaun Uchaf; 2il Nanna Jones, Garth; 3ydd Iwan Evans, Parcyrhos; 4ydd Jac Rees, Tanrhos. Mawrth - 1af Tony Sisto, Blaenau Gwennog; 2il Mrs Helen Jones, Pennant; 3ydd Lorraine McLoughlin, 5 Heol y Bryn; 4ydd Marian Thomas, Hengoed. Ebrill - 1af Ray Jenkins, Beiligwyn; 2il Jane Grundy, Hen Cwmawr; 3ydd Meinir Davies Tanrhos; 4ydd Gwyneth Morgans, Pensarnau.

Colled

Daeth newyddion trist iawn i ran ardal eang iawn canol Ebrill pan glwyd am farwolaeth sydyn Donald (Don) Coedlannau - brawd ffyddlon iawn a ffermwr diwyd. Bu ei angladd yn Eglwys Sant Ioan, Pontsian a danfonwn ein cydymdeimlad llwyrfa â'r brodyr oll a'r teulu yn ei colled.

Capel y Bryn

Bu Ela Mablen Griffiths-Jones a Swyn Tomos (y ddwy gyfnither) yn rhoi emyn allan ar ran Capel y Bryn yn y Gymanfa Ganu flynyddol yn Nghapel Ciliau Aeron yn ddiweddar.

Llanfair Clydogau



Priodas

Ar ddiwrnod braf o Ebrill, yn hen, hen Eglwys y Seintiau yng Nghellan, priodwyd Dolly Yang a John Metcalf. Roedd yn briodas anghyffredin, gyda Dolly yn edrych yn brydferth iawn mewn ffrog goch draddodiadol Tsieineaidd gyda brodwaith liwgar dros rannau ohoni. Ei merch briodas oedd ei ffrind Esther Kangau, o Nigeria yn wreiddiol ond yn fyfyrwraig yng Ngholeg y Drindod Dewi Sant ar hyn o bryd. Ei metron o anrhydedd oedd Sarah Evans, Tŷ Newydd, hithau yn wreiddiol o Ghana a'r ddwy wedi gwisgo yn nillad traddodiadol eu gwlad. Gwas priodas John oedd Peter Leech, un o'i ffrindiau gorau.

Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Bill Fillery. I groesawu Dolly a'i mam, chwaraewyd y delyn gan Elinor Bennett. Y gerddoriaeth oedd Serch Hudol, trefniant John Thomas. Roedd y darlleniad cyntaf gan Krystyna Krajewska, darn oedd wedi'i ysgrifennu gan Jen-Hua Yung, tad Dolly i John pan gwrddodd ag ef gyntaf yn 2011. Yr ail ddarlleniad oedd darn anhysbys o farddoniaeth 'Mi Gerddaf Gyda Thi' yn Gymraeg gan Aerwen Griffiths a chyfieithiad Saesneg ohono gan Dan Griffiths.

Fel rhan o'r gwasanaeth priodas roedd John wedi cyfansoddi cerddoriaeth i'r darn hwn o farddoniaeth fel syrpreis i Dolly. Cafodd ei chwarae a'i ganu ar y delyn gan Elinor. Tra y buont yn llofnodi'r gofrestr, bu Rajesh David a Marya Wyvill yn arwain y salm-dôn 'Medicine Buddha Mantra' gyda'r gynulleidfa yn uno yn y llafarganu. Fel diweddglô i'r gwasanaeth chwaraeodd Elinor y Concerto yn B fflat Major, Op. 4 rhif 6 gan Handel. Elinor hefyd oedd yn gyfrifol am gyfeilio ar y delyn i'r emynau. Roedd yr eglwys wedi ei haddurno yn hyfryd gyda rhosynnau coch a gwyn gan Nicola a'r eglwys yn llawn o deulu a ffrindiau.

Cafwyd y wledd briodas yn Neuadd y Pentref Llanfair gyda'r lle yn edrych yn hardd wedi ei addurno'n goch. Cafwyd adloniant ar y delyn gydag amrywiaeth o fwsig clasurol a thraddodiadol Cymreig, cyn i bawb fwynhau lluniaeth ysgafn.

Mae John a Dolly yn byw yn Tŷ Yfory ar Heol Llanfair. Roedd yr achlysur priodas yn arbennig gan fod mam Dolly, Mei-hoh, wedi gallu bod yn bresennol a hithau yn byw yn Taiwan. Mis yn ôl bu farw tad Dolly, Jen-hua, yn 91 oed tra oeddynt ar eu gwyliau yma, a chynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Eglwys y Seintiau, Cellan. Yn nhraddodiad Tsieineaidd mae'n beth lwcus i gael priodas yn fuan ar ôl angladd. Maent yn treulio eu mis mêl yn Taiwan, ac yn mynd â mam Dolly nôl adref gyda llwch ei thad yr un pryd. Dymunwn fendith, hapusrwydd ac hir oes i'r ddau ohonynt.

Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd Rali y Gwanwyn ar Ebrill 16eg yng Nghiliau Aeron. Bu cystadlu brwd fel arfer gyda sawl un o aelodau Llanfair yn cymryd rhan. Llongyfarchiadau i Elaine, Eleanor, Iola ac Iris am gystadlu ac i Iris am ennill y cyntaf am wneud bara soda ac ail am eitem wno.

Ar Fawrth 17eg cafwyd noson agored ddiddorol pan ddaeth Ceri Owen Jones ac Elsa Davies i roi noson o hanes ac adloniant ar fwsig yng Nghymru. Daeth nifer ynghyd i wrando, i fwynhau a dysgu llawer. Cafwyd lluniaeth hyfryd i bawb fel arfer.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Helen John, Pentre gynt, a gymrodd ran yn Marathon Llundain ddydd Sul Ebrill 24ain a chyflawni'r ras mewn amser da, ychydig dros bedair awr. Da iawn ti. Dal ati.

Clwb Cant

Dyma enillwyr Clwb Cant y Gwanwyn. £20 - Arwyn Evans, Llanfair Fawr. £10 - Martin Quan, Sŵn yr Afon; Alan Taylor, Tŷ Capel; Joe Leech. £5 - Linda Quelch, Tynant; Matthew Miller, Cysgod y coed; Sian y ci, Esgairman; Dafydd Sion Davies, Caerdydd; Dan Griffiths, Pengarn, ac Anwen Bell, Maesgwyn.

Penblwydd Arbennig

Llongyfarchiadau cynnes i Rebecca Miller, Cysgod y Coed, Heol Llanfair sydd newydd dathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed. Mae Rebecca yn gweithio yn Meithrinfa'r Dyfodol yng Nghellan. Dymunwn i ti bob lwc i'r dyfodol a dathlu da.

Rhannwch eich newyddion lleol ar
www.clonc360.cymru



Ieuan Jones
Adferwr Lluniau
Cwrtycadno



Gwasanaeth
troi
Vhs i Dvd

Rhoi bywyd newydd i hen lun

Ffôn: 01558 650153

e-bost: ieuan@glynhebog.co.uk

Y we: cwrtphoto restoring.com



Osian Potter
Toio a Gwaith Saer

Adeiladau Newydd · Ail-doi
Ffasgiau, Soffitau a Chafnau
Gwaith Simnai · Gwaith Plwm
Saer Coed

07816 869 047 · 01570 471 749
osianp@btinternet.com

Cymwys, 14 Blynedd o Brofiad, Geirda ar Gael

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL



Gwasanaethu boeler olew
Gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi a cheginau
Ffôn: 07811052757
Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwersi TELYN a
Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach
cysylltwch â
Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffyrnau Olew
- Pympiâu Gwres o Ffynonhellau'r
ddaeir a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Sue's Hair Stylist




- Edafu
- Trin ewinedd
- Trin traed



- Triniaeth hwyneb
- Lliwio ael a lliwio blew llygaid

Cynigion arbennig yn yr ystafell driniaeth newydd



Ystafell driniaeth newydd ar agor nawr!!
- Tyllino pen Indiaidd
- Tyllino Sweden
- Tyllino cerrig poeth
a llawer mwy o driniaethau

Dewch i brofi tyllino pen Indiaidd a fydd yn eich rhyddhau o straen a thensiwn, ac yn eich gadael yn teimlo yn hamddenol, wedi adfywio ac ail fywiocau

Cysylltwch â:
Sue Hairstylist
Pencader
Rhif ffôn - 01559384794



Enw: Jonathan Ceri Davies
Oed: 26
Pentref: Llanbedr Pont Steffan
Gwaith: Trydanwr
Partner: Angharad

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Rasio quads.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
Bernard's Watch.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
Peidio gwastraffu bwyd.

Taset ti'n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti'n dweud wrth dy hun yn 16 oed?
I fwynhau'r ysgol yn fwy.

Y CD cyntaf a brynast di erioed?
Five.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Chwaraewyr rygbi proffesiynol.

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Treulio amser efo Angharad.

Beth yw dy lystenw?
Snowy.

I ba gymeriad enwog wyt ti'n debyg?
Chad Michael Murray.


Taset ti'n anifail, pa anifail fyddet ti a pham?
Cheetah. Joio gwylio nhw ar raglenni dogfen.

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?
Fat friday.

Beth yw'r peth gwaethaf am dy swydd bresennol?
Papur gwaith!

Y peth gorau am yr ardal hon?
Yr amgylchedd.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Glaw!



Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
Cymraeg.

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Pobl anghwrtais

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Bwcio gwyliau i Awstralia

Beth sy'n codi ofn arnat?
Mynd yn hen

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?
Sai'n cofio, sai'n berson sy'n mynd yn grac yn rhwydd.

Unrhyw ofergoelion?
Dim mynd heibio neb ar y staer.

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
Ennill cystadleuaeth Ewropeaidd rasio quads mas yn Holland

Ac yn bersonol?
Angharad yn cytuno i briodi fi!

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n gryf?
Digon o gerdded yn yr awyr iach a mas ar y beics.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
Gwranda ar Angharad!!

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Audi a3.

Beth yw dy hoff air?
Sparadygeithus.

Beth yw dy hoff wisg?
Siorts holister.

A'th hoff adeilad?
Sied fi!

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Oh my cod!

Beth yw dy ddiod arferol?
Dŵr.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?
Trout and salon.

Beth yw dy hoff arogl?
Porfa wedi cael ei dorri.

Sut wyt ti'n ymlacio?
Pysgota wrth ymyl yr afon.

Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?
Ebay.

Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?
Anthony Roach.

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Allweddi car.

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?
Siarad sawl iaith arall.

Beth sy'n rhoi egni i ti?
Banana.

Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?
Circuit training.

Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?
Ceir.

Y gwyliau gorau?
New York!

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?
Awstralia. Iceland. Affrica.

Pa dri pheth yr hoffet ti wneud cyn dy fod yn ddeugain?
Cael plant. Mynd ar drip rygbi Y Llewod. Ennill y loteri.

Pa bwerau arbennig fyddet ti'n hoffi eu meddu?
Gallu hedfan.

Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?
Neud siŵr bod larwm ar gael i'r bore.

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:
Wendy Angharad Davies, Esgairdawe.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

			5	4				
6	5		3				2	4
2		3						
	7		1		5	8		9
3		5	9		8		1	
						7		8
7	3				1		9	5
			6	3				

Swdocw Ebrill:

Llongyfarchiadau i Sian Blake, Penlon Cottages, Gorsgoch a diolch i bawb arall am gystadlu: Joan Stacey, Tynwaun, Ffaldybrenin; Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder, Gwenan Haf Jones, Cae Seiri, Caerfyrddin a Glenys Davies, Gelli Aur, Llanybydder.

3	6	4	1	7	9	5	8	2
7	2	5	4	8	3	1	9	6
1	9	8	2	6	5	3	7	4
8	1	6	5	2	7	4	3	9
4	5	2	9	3	8	7	6	1
9	7	3	6	1	4	8	2	5
5	4	7	3	9	2	6	1	8
2	8	1	7	5	6	9	4	3
6	3	9	8	4	1	2	5	7



Tynrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Helo blant, sut ydych chi? Beth ydych chi wedi bod yn gwneud dros yr wythnosau diwethaf 'ma? Ydych chi wedi gweld yr eira a'r cesair a'r haul braf rydym wedi ei gael yn ystod y diwrnodau diwethaf? Mi wnes i ddihuno un bore a chael braw mawr wrth weld llond lle o eira ar hyd fy llwybr allan o'r gragen.


Wel, er waetha'r tywydd, mi wnaeth nifer ohonoch chi fynd ati i liwio llun y plant yn helpu Mam i goginio. Da iawn chi gyd. Roedd ganddoch chi gyd luniau lliwgar iawn yn enwedig rhai Jac Rees o Gwmsychpant, Anna Siencyn Evans o Drefach a Mari Rees o Gwmsychpant. Ond y llun mwyaf lliwgar y mis yma oedd un Dion Siencyn Evans, Tŷ Clyd, Drefach. Llongyfarchiadau mawr i ti Dion!

Mae'r tywydd wedi bod yn braf y mis hwn eto ac mae'r blodau yn dechrau tyfu yn y gerddi a'r cloddiau. Wrth ysgrifennu'r llythyr yma dw i'n edrych allan drwy'r twll yn fy nghragen ac yn gweld blodau o bob lliw. Ond wythnos diwethaf roeddwn yn gallu gweld rhywbeth heblaw am flodau. Mae ceffyl Ffred y ffermwr, sef perchennog y cae, wedi cael ebol bach. Dw i wrth fy modd yn gwyllo'r eboles fach yn prancio o gwmpas y cae ac yn mwynhau'r glaswellt gwyrdd.

Felly mis yma beth am fynd ati i liwio llun o'r ceffyl a'r eboles fach a chofiwch ddychwelyd y llun mewn da bryd i mi.

Ta ta tan toc.


Llancyn Llancyn



Enillydd
ymis!

Dion
Siencyn
Evans

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



ENWAU YN Y TREFTADAETH HANESYDDOL (83)

Mae'r golofn hon wedi tynnu sylw at gamau Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) sawl gwaith yn y gorffennol. Mae'r hyn a fu bryd hynny'n fil, bellach yn ddeddfwriaeth. Cafwyd cydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth eleni.

Bydd grym gan rai o'r mesurau o fewn deufis i'r dyddiad hwn. Ond cyn i'r rhan fwyaf o'r mesurau fagu unrhyw rym bydd angen gorchmynion, rheoliadau neu gamau paratoi ychwanegol. Cyfyngwn ein sylw i faes enwau.

Yn unol ag amodau'r ddeddfwriaeth bydd rhaid llunio, diweddarau a chynnal Cofnod Amgylchedd Hanesyddol (CAH) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Bydd y cofnodion ar gael i'r cyhoedd ac yn rhoi i awdurdodau cynllunio lleol a rheolwyr tir eraill wybodaeth i'w galluogi i wneud penderfyniadau hyddysg ynghylch yr amgylchedd hanesyddol.

Bydd yn ofynnol, yn ogystal, i ffurfio rhestr genedlaethol o enwau lleoedd hanesyddol. Bydd modd elwa, mae'n siŵr, ar gronfeydd data annibynnol megis 'Cymru 1900 Wales' a 'Cynefin: mapiau Degwm Cymru' er mwyn sicrhau sylfaen solet i'r gronfa ddata genedlaethol.

Ni ellir gwadu manteision sefydlu un gronfa ddata genedlaethol dan ofal corff arbenigol cymwys. Ond dagrau pethau yw bod y bwriad, pa mor ddifffuant bynnag y bo, yn gam ofer heb drefnu grym cyfreithiol i warchod yr ENWAU ar y rhestr.

Gwyddom yn rhy dda ysywaeth am y ffurfiau gwamal sy'n bygwth y cwlwm o berthyn sy'n eiddo i enw lle. Heb rym cyfreithiol mae'n ddeddfwriaeth na all warchod enwau.

Byddaf yn derbyn yn gyson gopi o gylchlythyr Cymdeithas Gymreig Canberra yn Awstralia. Mae'n cynnwys o dro i dro sylwadau ar rai enwau

Cymraeg sydd wedi llwyddo i wreiddio yn y wlad honno. Mewn un rhifyn sydd gen i, mae un o ohebwyr y cylchlythyr yn tynnu sylw at brofiad a gafodd pan fynychodd achlysur hyrwyddo wisgi yn Canberra. Yn ôl a ddeallaf osgoi pethau fel hyn a wna gohebwyr a golygyddion fel rheol.

Denwyd ein gwron at stondin y Nant Distillery Company, Tasmania. Cofnododd y stori hon. Cafodd y ddistyllfa ei chodi ar dir a oedd yn eiddo i ymfudwr o Gymru o'r enw Edward Nicholas



o'r Fenni yn Sir Fynwy. Glaniodd ef a'i deulu a chriw o'i weithwyr yn Van Dieman's Land yn Awst 1821. Derbyniodd 1,800 o gyfeiri o dir a galw'r eiddo newydd yn 'Nant' ar ôl ei hen gartref yng Nghymru. Erbyn 1825 roedd melin i falu grawn wedi ei chodi er mwyn diwallu anghenion y stad. Codwyd melin arall yn 1857 a bu honno'n gweithio tan 1890. Erbyn heddiw mae'r felin wedi ei hadnewyddu. Grym y dŵr ar y safle sy'n gyrru peiriannau'r Nant Whisky Distillery yn Tasmania. Mae 'Nant' yn coffâu hen gartref yr ymfudwyr o Went.


Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru.

www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org enwaulleoedd@gmail.com

Rhedwyr Marathon Llundain Clwb Sarn Helen



Carwyn Davies



Caryl Davies



Nigel Davies



Terry Jones

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd,
Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicrhau gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw llyd ydych yn gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambod, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breics * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

Edrych yn lleol Defnyddio yn lleol Prynu yn lleol



Mae Bwcabus yn rhoi mwy o hyblygrwydd a chyfleoedd i deithio rhwng trefi a phentrefi lleol drwy ddefnyddio siwrneiau a archebir ymlaen llaw a/neu wasanaethau amserlen sefydlog.

Os nad yw amserlenni'r llwybrau sefydlog yn diwallu eich anghenion, rhwng gynnig ar wasanaeth ymatebol Bwcabus.

617 Bwlchfadfa - Llanbedr Pont Steffan
Drwy Talgarreg - Gorsgoch
Dydd Mawrth yn unig

am/pm	am
Bwlchfadfa, gyferbyn lloches	10.20
Talgarreg, Neuadd	10.23
Gorsgoch, Neuadd	10.31
Cwrt-newydd, gyferbyn Llew Goch	10.35
Drefach, cofeb	10.40
Llanybydder, Heol-y-Gaer	10.46
Alltyblacca, Chapel House	10.51
Llanwnen, gyferbyn Bro Granell	10.54
Llanbedr Pont Steffan, Llew Du	11.00

am/pm	pm
Llanbedr Pont Steffan, Nat West	1.45
Llanwnen, Bro Granell	1.51
Alltyblacca, Chapel House	1.54
Llanybydder, Heol-y-Gaer	1.59
Drefach, croesffordd	2.05
Cwrt-newydd, Llew Goch	2.10
Gorsgoch, gyferbyn Neuadd	2.14
Talgarreg, gyferbyn Neuadd	2.22
Bwlchfadfa, lloches	2.25

618 Talsarn - Llanbedr Pont Steffan

Drwy Bwlchyllan - Silian
Dydd Mawrth yn unig

am/pm	am
Talsarn, gyferbyn Maes Aeron	9.25
Bwlch-llan, Capel	9.32
Llangeitho, sgwar	9.40
Silian, lloches	10.02
Llanbedr Pont Steffan, Llew Du	10.10

am/pm	pm
Llanbedr Pont Steffan, Nat West	12.50
Silian, lloches	12.57
Llangeitho, sgwar	1.19
Bwlch-llan, lloches	1.27
Talsarn, Maes Aeron	1.34

Gwasanaeth yn gweithredu o ddydd
Llun i ddydd Sadwrn o 7am - 7pm
Llinell archebu ar agor 7 diwrnod
yr wythnos o 7am - 7pm

01239 801601

**Yn ogystal gall teithwyr
sydd â cherdyn teithio ar
fysiau deithio AM DDIM**



University of
South Wales
Prifysgol
De Cymru

TravelineCymru
0300 200 22 33
www.traveline.cymru



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



Croeso i

Cwm Aur

Eich cartref, eich dewis

Fflatiau ymddeol i bobl dros 55 oed

O'r safon uchaf, un neu ddwy ystafell wely hunan-gynhaliol wedi cael eu haddasu i gwrdd ag unrhyw bwysau sydd gennych ac yn cydymffurfio gyda chi.

Os mai tawelwch meddwl, y cyfeillgarwch a'r help yr ydych yn chwilio amdano – Cwm Aur yw'r lle delfrydol i chwi gyda thaliadau fforddiadwy, yn cynnwys yr holl gynnal a chadw, y gwres a'r dŵr twym yn y pris.



Cartrefi
un a dwy
ystafell wely



01570 481560



part of **pobl** group